# Cynllun Blynyddol

2021-2022

Estyn






Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae holl gyhoeddiadau Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Prif Arolygydd** | **1** |
| **Cyflawni ein hamcanion strategol** | **3** |
| **Amcan strategol 1 – Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru** | **4** |
| Cefnogi parhad dysgu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 4 |
| Cynllunio ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu ac arolygu 2021-2022 | 5 |
| Gweithgarwch arolygu dilynol | 8 |
| **Amcan strategol 2 – Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru** | **10** |
| Cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2021-2022 | 10 |
| Adroddiadau manwl a, lle y bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n defnyddio tystiolaeth o arolygiadau thematig | 10 |
| Parhau â'r gwaith ar yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol | 10 |
| Parhau â'r gwaith gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion sy'n peri pryder | 11 |
| Parhau â'r gwaith gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynorthwyo i ddiwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) | 11 |
| Rhoi cyngor ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol | 11 |
| Meysydd polisi y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch drwy gyfrannu at waith gweithgorau | 11 |
| Meysydd eraill y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth yn eu cylch o ran addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 11 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Bwyllgorau Senedd Cymru ac ymatebion ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 12 |
| Adroddiad Blynyddol PAEM | 12 |
| **Amcan strategol 3 – Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru** | **13** |
| Gweminarau a chynadleddau | 13 |
| Hyfforddiant i arolygwyr allanol | 13 |
| Arolygwyr cyswllt | 14 |
| Lledaenu astudiaethau achos | 14 |
| Dathlu arfer ragorol | 14 |
| Ein gwefan | 15 |
| Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol | 15 |
| Cynghori ar ddiwygio addysg yn y tymor hir a chyfrannu ato | 15 |
| **Sut rydym yn cyflawni ein gwaith** | **17** |

Adeiladu sefydliad gwell a byw’n unol â’n gwerthoedd 19
Cryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid 19
Gweithio ar y cyd â chyrff arolygu 21
Adborth a chwynion 23
Arweinwyr effeithiol a llywodraethu da 23
Pobl fedrus 23
Lle gwych i weithio 24
Cydraddoldeb a lles staff 25
Diogelu 25
Safonau’r Gymraeg 26
Adrodd ar gynaliadwyedd a bioamrywiaeth 26

**Mesur ac adrodd ar berfformiad 27**

Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 1 27
Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 2 27
Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 3 28
Amcanion perfformiad yn erbyn sut rydym yn cyflawni ein gwaith 28
Ein cyllideb ar gyfer 2021-2022 29

**Atodiadau 31**

**Atodiad 1: Ein diben a’n gweithgareddau craidd 32**

**Atodiad 2: Ein datganiad llesiant 33**

## Rhagair y Prif Arolygydd



Mae'n anodd dychmygu ein bod yn cyhoeddi ail Gynllun Blynyddol yn ystod y pandemig hwn. Er bod pob un ohonom eisiau mynd yn ôl i'r arfer cyn gynted â phosibl, mae COVID-19 yn fygythiad o hyd ac yn parhau i gael effaith sylweddol ar economïau a chymunedau, ac yn effeithio ar blant ysgol, dysgwyr a staff addysg ledled y byd.

**Dod allan o'r cyfnod clo**

Wrth i dymor yr haf ddechrau yng Nghymru, dychwelodd plant a phobl ifanc i addysg ar y safle. Dychwelodd dysgwyr ôl-16 i'w lleoliadau hefyd, er bod dysgu cyfunol wedi parhau mewn rhai sectorau.

Trwy gydol y pandemig, parhaom i ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), drwy alwadau ffôn yn bennaf i ddechrau, ac yna drwy ymweliadau. Mae ein gwaith ymgysylltu â sectorau eraill wedi parhau hefyd, a rhai ymweliadau wedi ailddechrau. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn ar draws y sector wedi cefnogi cynllun adfer dysgu Llywodraeth Cymru ar ôl y pandemig, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Ar gyfer 2021−2022, mae'r cynllun blynyddol hwn yn amlinellu ein bwriad i'n harolygwyr bontio'n raddol ac yn sensitif yn ôl i weithgareddau ar y safle a phatrwm gwaith mwy arferol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

**Cefnogi adnewyddu a diwygio**

O dymor yr hydref, byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi ysgolion ac UCDau ar eu taith â'r cwricwlwm, yn ogystal â monitro ysgolion sy'n peri pryder. Byddwn yn ailgydio mewn mwy o waith arolygu mewn sectorau eraill, gan gynnwys ymweliadau monitro blynyddol ag ysgolion arbennig annibynnol. Bydd ein harolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn ailddechrau, byddwn yn cynnal cynllun peilot ar gyfer model arolygu hybrid ar gyfer darparwyr Dysgu Cymraeg, ac rydym yn bwriadu lansio cylch newydd o arolygiadau addysg gychwynnol athrawon. Byddwn hefyd yn dechrau rhaglen o ymweliadau monitro â darparwyr prentisiaethau newydd ym mlwyddyn gyntaf eu contractau newydd. Byddwn yn parhau i ymuno â thimau arolygu ar y cyd pan gawn wahoddiad gan Carchardai AEM a Gwasanaeth Prawf AEM.

Mewn sectorau eraill, byddwn yn parhau â'n gwaith ymgysylltu ac yn llunio adroddiadau tymhorol i rannu mewnwelediadau, gan gynnwys cameos o arfer ddiddorol.

**Cynnal cynllun peilot o'n trefniadau arolygu newydd**

Hoffem wneud yn siŵr fod y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r fframwaith arolygu

newydd yn cefnogi adnewyddu a diwygio. Felly, o wanwyn 2022, byddwn yn cynnal arolygiadau peilot mewn nifer fach o ysgolion ac UCDau. Wedi hynny, rydym yn bwriadu ailgydio mewn arolygiadau yn yr holl sectorau sy'n weddill, a byddwn yn parhau i gydweithio â darparwyr i ddeall eu hamgylchiadau unigol a bod yn sensitif iddynt.

**Parhau â'n gwaith**

Yn ystod 2021–2022, byddwn yn parhau â'n hail amcan strategol – llywio datblygiad polisi cenedlaethol – drwy gyhoeddi adroddiadau thematig a chyngor arall, yn unol â gofynion llythyr cylch gwaith y Gweinidog. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o gymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol. Byddwn hefyd yn ystyried y cyfleoedd cwricwlaidd i ddysgwyr 16-18 oed.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid i gynorthwyo i ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, a'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol. Bydd ein gwaith â phartneriaid i arbrofi â dulliau newydd i gynorthwyo ysgolion sy'n peri pryder yn parhau hefyd.

Bydd Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Rhagfyr 2021. Bydd yn canolbwyntio ar sut yr ymatebodd ysgolion a darparwyr eraill i'r heriau a wynebwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2020–2021.


Mae gweminarau wedi cynnig ffordd newydd i ni i helpu rhannu arfer effeithiol a thystiolaeth o'n hadroddiadau thematig. Byddwn yn gwneud mwy o'r rhain, yn ogystal â chyfrannu at gynadleddau a gweithdai ledled Cymru. Rydym hefyd yn cynllunio digwyddiadau datblygiad proffesiynol i'n harolygwyr allanol, drwy gymysgu sesiynau ar-lein â modiwlau a gweithgareddau dysgu o bell i gefnogi myfyrio personol.

Trwy gydol y pandemig, buom yn gwrando ar ein rhanddeiliaid ac yn dysgu oddi wrthynt. Eleni, hoffem esblygu sut rydym yn ymgysylltu â chi wrth i ni feddwl am lunio ffyrdd newydd o weithio wrth ymateb i'r pandemig.

Byddwn yn adeiladu ar ein cydweithio a chydweithredu rhagorol ag arolygiaethau yng Nghymru, y DU a'r tu hwnt. Mae'r cynllun blynyddol hwn hefyd yn amlinellu sut byddwn yn parhau i gynnig gwerth am arian a chost effeithiolrwydd yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol.

**Hwyl fawr**

Dyma fy nghynllun blynyddol olaf fel Prif Arolygydd, gan y byddaf yn trosglwyddo'r fantell i'm holynydd ar ddiwedd tymor yr haf. Hoffwn ddymuno'n dda i'm holynydd, ac rwy'n gwybod y bydd arweinyddiaeth newydd Estyn yn cymryd yr awenau mewn sefydliad cryf a thîm sy'n gwbl ymroddedig i wasanaethu'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Cyflawni ein hamcanion strategol



## Cyflawni ein hamcanion strategol

Ar hyd y pandemig COVID-19, rydym wedi parhau i roi lle blaenllaw yn ein meddyliau i'r pedair blaenoriaeth ganlynol:

- iechyd a diogelwch ein staff
- lles dysgwyr a pharhad eu dysgu
- y cymorth sydd ei angen ar arweinwyr, athrawon a staff eraill yn y system addysg yng Nghymru
- cynnal gweithrediad strategol a gweithredol effeithiol ein sefydliad

Mae'r blaenoriaethau hyn a'n trafodaethau parhaus â rhanddeiliaid a'n staff ein hunain wedi ffurfio ein penderfyniadau ynghylch sut byddwn yn cyflawni ein hamcanion strategol dros y flwyddyn sydd i ddod.

## Amcan strategol 1 – Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

### Cefnogi parhad dysgu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Yn 2021-2022, byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi Cynllun Adfer Dysgu Llywodraeth Cymru ar ôl y pandemig COVID-19 ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant. Bydd hyn yn arwain at adroddiadau tymhorol wedi'u seilio ar dystiolaeth wedi'i chasglu o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu, gan gynnwys cameos o arfer ddiddorol yn ymwneud ag:

- ymgysylltiad dysgwyr, gan gynnwys strategaethau effeithiol i gynorthwyo grwpiau oedran gwahanol
- dysgu o bell a threfniadau i gynorthwyo dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i ddarpariaeth amser llawn
- cymorth i ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig yn ymwneud â lles
- mynediad cyfartal at ddysgu a chymorth
- gweithredu'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
- cymorth wrth bontio i addysg gynradd, uwchradd ac addysg a hyfforddiant ôl-16
- dysgu mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol (er enghraifft ysgolion arbennig annibynnol, colegau, darparwyr addysg, tiwtora gartref)
- cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, wedi'i gefnogi gan asesiadau priodol, sy'n bodloni anghenion pob dysgwr
- arweinyddiaeth a chynllunio gwelliant
- y system o ddyfarnu cymwysterau cyfredol a datblygu cymhwyster ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Gan ddefnyddio'r amserlenni yn y Cynllun Adfer Dysgu, byddwn yn canolbwyntio ein hymweliadau ymgysylltu, ar y cyd â rhanddeiliaid, ar baratoi i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan gynnwys:

- dysgu proffesiynol ac arfer wedi'i llywio gan dystiolaeth (gan gynnwys sut mae ysgolion wedi defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn)
- sut mae ysgolion yn defnyddio'r adnoddau gwerthuso a gwella cenedlaethol, a lle maent ar eu taith wella

**Cynllunio ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu ac arolygu 2021-2022**

Yn ystod 2021-2022, byddwn yn parhau i weithio mewn modd hyblyg a datblygu ein harferion gwaith yn ôl yr angen, yn amodol ar y sefyllfa ddiweddaraf â COVID-19 a'r cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

Adeg llunio'r Cynllun Blynyddol, mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn obeithiol y bydd mwy o sefydlogrwydd ym myd addysg yn ystod 2021-2022, ac yn gobeithio pontio i weithgareddau mwy arferol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae ein rhanddeiliaid hefyd yn disgwyl y bydd ein dull yn parhau i fod yn sensitif ac yn hyblyg, ac yn ystyried amgylchiadau unigryw pob darparwr a'r heriau mae'n eu hwynebu.

Rydym wedi ystyried yn ofalus sut byddwn yn pontio o ymgysylltu o bell i ymweld â darparwyr, ac yn symud ymlaen dros amser i fodel arolygu. Isod, amlinellir ein cynlluniau ar gyfer pob sector.

**Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)**

Mae'r estyniad i'r cyfnod atal ar gyfer ein rhaglen arolygiadau craidd i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cynnwys tymor yr haf 2021 a thymor yr hydref 2021.

Yn ystod tymor yr haf 2021, parhaom â galwadau ymgysylltu, ond gan gyflwyno rhaglen o ymweliadau ymgysylltu hefyd.

Rydym yn cydnabod y bu'r flwyddyn a hanner diwethaf yn anodd ac yn heriol i lawer o ddysgwyr a'u teuluoedd, ac i ddarparwyr addysg a'u staff. Yn ystod gweddill tymor yr haf, byddwn yn gofyn am adborth ar ein trefniadau arolygu newydd. Byddwn yn ystyried, gyda Llywodraeth Cymru, y cydbwysedd gorau o ran gwaith ymgysylltu a gwaith arolygu i gefnogi'r daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru.

O dymor yr hydref 2021, rydym yn bwriadu parhau i gefnogi adnewyddu a diwygio'r system addysg ac, yn benodol, byddwn yn helpu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a diwygio anghenion dysgu ychwanegol.

Byddwn yn canolbwyntio ar barhau â'n hymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i'w cefnogi ar eu taith â'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar fonitro ysgolion sy'n peri pryder ac yn ymgymryd â gwaith thematig cenedlaethol cytûn (gweler amcan strategol 2).

O wanwyn 2022, ein nod yw cynnal cynllun peilot o'r trefniadau arolygu newydd

mewn nifer fach o ysgolion ac UCDau. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud yn siŵr fod y newidiadau a wnaed gennym yn cefnogi adnewyddu a diwygio. Byddwn yn gofyn am gytundeb darparwyr unigol i gymryd rhan yn yr arolygiadau peilot, ac efallai y byddwn yn cynnal arolygiadau o ysgolion eraill o hyd mewn amgylchiadau eithriadol.

**Lleoliadau meithrin nas cynhelir**

Ataliom ein rhaglen arolygu ar y cyd ym mis Mawrth 2022, a buom yn adolygu'r sefyllfa bob tymor. Ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), rydym wedi penderfynu ymestyn y cyfnod atal cyfredol ar gyfer arolygiadau ar y cyd hyd at ddiwedd tymor yr hydref 2021. Bydd hyn yn ein galluogi ni (Estyn) i gynorthwyo'r sector i adnewyddu ei drefniadau a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac anghenion dysgu ychwanegol.

Ein nod yw ailgydio mewn arolygiadau ar y cyd yn nhymor y gwanwyn 2022. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus ac yn esblygu ein cynlluniau yn ôl yr angen.

Yn ystod y seibiant o arolygu, rydym wedi cysylltu ag ystod o randdeiliaid i werthuso a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'r fframwaith arolygu ar y cyd. Rydym yn myfyrio ar yr adborth hwn ac yn gwneud newidiadau addas i'r fframwaith. Ein nod yw cyhoeddi'r fframwaith diwygiedig yn Nhachwedd 2021. Byddwn yn sensitif i brofiadau lleoliadau o'r pandemig pan fyddwn yn ailddechrau arolygu.

Byddwn ni (Estyn) yn parhau i gynnal gweithgareddau ymgysylltu â lleoliadau yn ystod y flwyddyn nes i ni ailgydio yn ein harolygiadau ar y cyd yn nhymor y gwanwyn 2022. Erbyn diwedd tymor yr haf, byddwn wedi ymgysylltu â'r holl leoliadau nas cynhelir sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol i ddarparu addysg gynnar. Ein nod yw cyhoeddi adroddiad sy'n cipio'r prif themâu o'n gweithgareddau ymgysylltu yn nhymor yr haf, i gyd-fynd â'n hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

**Ysgolion annibynnol prif ffrwd ac arbennig**

Ataliom ein rhaglen arolygiadau craidd ym mis Mawrth 2020, a buom yn adolygu'r sefyllfa bob tymor i benderfynu ar yr adeg briodol i ailddechrau arolygu.

Yn ystod haf a hydref 2021, byddwn yn cynnal ymweliadau ymgysylltu ag ychydig o ysgolion prif ffrwd annibynnol fel trefniant dros dro, cyn ailgydio mewn arolygiadau craidd. Byddwn hefyd yn ailddechrau ymweliadau monitro blynyddol ag ysgolion annibynnol sy'n cynnig darpariaeth ADY.

O wanwyn 2022 ymlaen, byddwn yn ailgydio yn ein trefniadau arolygu newydd mewn ysgolion annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn parhau i ystyried ceisiadau unigol am newidiadau perthnasol neu geisiadau i gofrestru ysgolion newydd, yn gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a oes angen i ni ymweld â'r safleoedd ai peidio, ac yn ymateb yn unol â hynny. Byddwn hefyd yn cynnal ymweliadau â ffocws pan ofynnir i ni wneud hynny ar ran Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL)**

Bydd ein harolygiadau o GALIL yn ailddechrau yn hydref 2021. Rydym wedi addasu

ein harweiniad i ystyried effaith y pandemig ar waith awdurdodau lleol, ac rydym wedi ymgynghori â'n prif randdeiliaid ar y newidiadau hyn.  Byddwn yn ceisio adborth ar ôl yr arolygiad cyntaf ac yn mireinio ymhellach, yn ôl yr angen.

**Colegau addysg bellach (AB)**

Byddwn yn cydweithio â darparwyr yn ystod tymor yr haf a thymor yr hydref 2021 i ymgynghori ar newidiadau i'r trefniadau arolygu.  Yn nhymor yr hydref, byddwn yn parhau â'n hymweliadau ymgysylltu â cholegau, ac yn cyhoeddi adroddiad diweddaru ar sut mae'r sector AB yn datblygu ei ddarpariaeth addysg alwedigaethol, dechnegol a chyffredinol.

Rydym yn bwriadu ailgydio mewn arolygiadau craidd yn nhymor y gwanwyn 2022.

**Dysgu oedolion yn y gymuned**

Byddwn yn cydweithio â phartneriaethau yn nhymor yr haf a thymor yr hydref 2021 i ymgynghori ar newidiadau i'r trefniadau arolygu.  Yn nhymor yr hydref, byddwn yn parhau â'n hymweliadau ymgysylltu â phartneriaethau dysgu oedolion.  Byddwn yn cyhoeddi adroddiad diweddaru ar sut mae'r sector dysgu oedolion yn y gymuned yn cyflawni yn unol â'i lythyr cylch gwaith, ac ar effaith gynnar ad-drefnu yn y sector.

Rydym yn bwriadu ailgydio mewn arolygiadau craidd yn nhymor y gwanwyn 2022.

**Dysgu yn y gwaith**

Ni fyddwn yn cynnal arolygiadau craidd o ddarparwyr dysgu yn y gwaith ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod contractio prentisiaethau newydd, sy'n dechrau yn nhymor yr hydref 2021.  Yn hytrach, byddwn yn cynnal ymweliad monitro â phob un o'r darparwyr dysgu yn y gwaith yn ystod y flwyddyn (tymor yr hydref 2021 hyd tymor yr haf 2022).  Bydd y gweithgarwch hwn yn cynnwys ymweliadau ag isgontractwyr ac aelodau consortiwm, ac yn arwain at lythyrau cyhoeddedig i bob un o'r prif ddarparwyr prentisiaethau.

Byddwn yn cynnal ymweliad monitro â'r holl ddarparwyr hyfforddeiaeth sy'n weddill cyn i'r contractau hynny ddod i ben ym mis Mawrth 2022.

**Cymraeg i oedolion**

Ym mis Ionawr 2021, cynhaliom arolygiad peilot o bell o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.  Ein nod yw adeiladu ar y profiad hwn drwy arbrofi â model arolygu hybrid ar gyfer darparwyr Dysgu Cymraeg yn ystod tymor yr hydref 2021.

**Addysg gychwynnol athrawon (AGA)**

Yn ystod tymor yr haf 2021 (a thymor y gwanwyn 2021), rydym wedi cynnal arbrofion rhithiol â thair o'r partneriaethau AGA â'n harolygwyr cymheiriaid i arbrofi a'n methodoleg newydd ar gyfer arolygu.

Rydym yn bwriadu lansio cylch newydd o arolygiadau AGA yn nhymor yr hydref 2021, a byddwn yn gwahodd arolygwyr cymheiriaid a chynrychiolwyr o'r sector i friff yn nhymor yr haf i rannu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau.

Bydd blwyddyn gyntaf y cylch newydd yn flwyddyn beilot, a byddwn yn gofyn am adborth gan y sector i'n cynorthwyo â'n trefniadau.

### Colegau arbenigol annibynnol

Byddwn yn ailgydio mewn ymweliadau monitro blynyddol yn ystod tymor yr hydref 2021, cyn ailddechrau arolygiadau craidd o fis Ionawr 2022.

### Dysgu yn y sector cyfiawnder

Byddwn yn parhau i ymuno â thimau arolygu pan gawn ein gwahodd gan Carchardai AEM a Gwasanaeth Prawf AEM i arolygu ansawdd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghymru. Rydym wedi ymuno ag arolygiadau Carchardai AEM ers iddynt ailddechrau gweithgarwch arolygu ym mis Medi 2020.

## Gweithgarwch arolygu dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried a oes angen rhagor o gymorth ar y darparwr. Rydym yn galw hyn yn weithgarwch 'dilynol'.

### Mathau gwahanol o weithgarwch dilynol

| | **Ysgolion a gynhelir ac UCDau** | **Lleoliadau nas cynhelir** | **Ôl-16**** |
|---|---|---|---|
| Adolygu gan Estyn | x | | x |
| Adolygiad cynnydd | | x | |
| Gwelliant â ffocws | | x | |
| Gwelliant sylweddol* | x | | |
| Mesurau arbennig* | x | | |
| Ailarolygiad | | | x |

*Yn dynodi categori statudol **Heblaw am ddarparwyr dysgu yn y gwaith

Rydym wedi sefydlu'r egwyddorion canlynol i lywio ein gwaith yn y dyfodol ag ysgolion a darparwyr eraill y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar hyn o bryd:

- Yn ystod y cyfnod pan fydd ysgolion a darparwyr eraill yn dysgu ar y safle, byddwn yn mabwysiadu dull sensitif, hyblyg a chytbwys tuag at ein gwaith, gan gynnwys ag ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt
- Byddwn yn parhau i gysylltu â phob un o'r ysgolion a'r darparwyr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt, a byddwn yn teilwra ein dull yn ôl eu hamgylchiadau unigol
- Ar gyfer ysgolion a darparwyr a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol yn ddiweddar, byddwn yn cynnig cymorth o bell i lunio eu cynllun gweithredu ôl-arolygiad

Bydd arolygwyr yn parhau i gysylltu ag ysgolion ac UCDau mewn categorïau gweithgarwch dilynol statudol (mesurau arbennig a gwelliant sylweddol), yn eu rôl fel

arolygwyr ‘bugeiliol’, hyd nes y byddwn yn ailgydio mewn gweithgarwch monitro ffurfiol.  Yn ystod tymor yr haf, parhaom â’n rhaglen galwadau ac ymweliadau bugeiliol ar gyfer rhai ysgolion, ond ailgydiom mewn ymweliadau monitro ar gyfer nifer fach o ysgolion ac UCDau hefyd.  O hydref 2021, rydym yn bwriadu ailgydio mewn ymweliadau monitro rheolaidd â darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol statudol, a byddwn yn sensitif i gyd-destun ac amgylchiadau lleol y darparwr bob tro.

Ar gyfer ysgolion ac UCDau yn y categori adolygu gan Estyn, byddwn yn parhau â’n paneli awdurdodau lleol i adolygu’r cynnydd a wnaed gan y darparwyr hyn o ran meithrin eu gallu i wella.  Lle’r ydym yn nodi bod gwelliannau’n rhy araf neu’n aneffeithiol, efallai y byddwn yn penderfynu ymweld â’r darparwyr yn ystod gwanwyn neu haf 2022 i werthuso cynnydd yn uniongyrchol.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen amlasiantaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd sy’n peri pryder.  Datblygwyd y rhaglen hon ar ôl rhaglen brawf 18 mis yn ôl, a bydd nawr yn cynnwys ysgolion uwchradd yn y categori mesurau arbennig.

Bydd ein harolygwyr cyswllt hefyd yn parhau i gynnig cymorth i awdurdodau lleol sy’n peri pryder.  Byddwn hefyd yn cynnal cynadleddau cynnydd mewn dau o’r awdurdodau lleol hyn, ac ymweliad monitro ag un arall.

Mae pedwar darparwr ôl-16 y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt.  Rydym wedi cynnal tri adolygiad â darparwyr yn ystod tymor yr haf 2021, ac rydym yn bwriadu adolygu’r pedwerydd darparwr yn nhymor yr hydref.

## Amcan Strategol 2 – Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

### Cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2021-2022

Mae crynodeb o'r llythyr cylch gwaith yr anfonodd y Gweinidog Addysg at PAEM ym mis Mawrth 2021 i'w weld isod. Mae'r llythyr llawn i'w weld yma.

Yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd arolygiadau craidd wedi'u hatal oherwydd y pandemig, byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â darparwyr i gynnig cyngor parhaus ac adroddiadau diweddaru tymhorol, fel y disgrifir dan Amcan Strategol 1.

### Adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n defnyddio tystiolaeth o arolygiadau thematig

Mae adolygiadau thematig i'w cynnwys yn eich cylch gwaith ar gyfer 2021-2022 yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n cysylltu â'r blaenoriaethau a ddatganwyd gan y Gweinidog ar gyfer addysg a hyfforddiant, gyda phwyslais ar y diwygiadau cyfredol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a diwygio AHO. Mae'r adroddiadau thematig arfaethedig fel a ganlyn:

- Cefnogaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol (adolygiad mawr)
- Newid dulliau asesu
- Dulliau o drochi yn y Gymraeg
- Cyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar Gyrfa Cymru
- Adolygiadau ymateb cyflym o ôl-16:
  - Dysgu Proffesiynol: cymwysterau ar gyfer ymarferwyr ôl-16 mewn addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned
  - Defnyddio cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau Ôl-16/cyllid dal i fyny mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched mewn ysgolion
- Y Cwricwlwm 16 i 18
- Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg mewn ysgolion

Hefyd, byddwn yn parhau â'n gwaith ar ein hadolygiad thematig o hanes a diwylliant Cymru a Phobl Dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, a'r adolygiad thematig o ysgolion pob oed, a ohiriwyd yn ystod 2020-2021.

### Parhau â'r gwaith ar yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol

Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol. Gweler y manylion dan amcan 3 y Cynllun Blynyddol hwn.

**Parhau â'r gwaith gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion sy'n peri pryder**

Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i gyflwyno dulliau newydd i gynorthwyo ysgolion sy'n peri pryder.  Gweler y manylion dan amcan 1 – 'arolygiadau gweithgarwch dilynol' yn y Cynllun Blynyddol hwn.

**Parhau â'r gwaith gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynorthwyo i ddiwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO)**

Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynorthwyo i ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) a pharatoadau ar ôl deddfwriaeth i greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

**Rhoi cyngor ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol**

Byddwn yn rhoi adborth i bob awdurdod lleol ar eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel rhan o'u prosesau ymgynghori ffurfiol.

**Meysydd polisi y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch drwy gyfrannu at waith gweithgorau**

Rydym yn rhoi cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn ystod o feysydd, er enghraifft drwy ymateb i geisiadau i roi cymorth i amrywiaeth o weithgorau drwy gynrychiolaeth arnynt, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu drwy drafodaethau ag uwch swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg.

**Meysydd eraill y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth yn eu cylch o ran addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

Byddwn hefyd yn cynnig cymorth parhaus yn y meysydd canlynol:

- cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion
- monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo dan adran 347(1) Deddf Addysg 1996 i dderbyn disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA dan adran 158 Deddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr
- arolygu a monitro'n flynyddol holl golegau arbenigol annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu'r ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn Lloegr lle caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu hariannu
- cofrestru ysgolion annibynnol, gan gynnwys ceisiadau am newidiadau sylweddol
- y grant datblygu disgyblion
- y grant gwella addysg ar gyfer ysgolion
- datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes
- ysgolion sy'n peri pryder

- gwaith dilynol yn ymwneud ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol
- enwebiadau ar gyfer anrhydedd
- gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidogol ag ysgolion
- cwestiynau'r Senedd

**Tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Bwyllgorau Senedd Cymru ac ymatebion ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

O bryd i'w gilydd, gofynnir i PAEM ac arolygwyr eraill gyflwyno tystiolaeth neu fynychu pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaeth graffu ar gyfer Senedd Cymru ac sydd, fel y cyfryw, yn drawsbleidiol ac yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Bob blwyddyn, mae PAEM yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i drafod Adroddiad Blynyddol PAEM. Pan fydd ymchwiliadau pwyllgor i faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, byddwn yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a gallwn fynychu gwrandawiadau pwyllgor hefyd pan fydd gofyn am dystiolaeth lafar. Fel arfer, rydym yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn ystod 2021-2022, byddwn yn parhau i roi ymatebion ysgrifenedig gan ddefnyddio ein sail dystiolaeth helaeth i ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar ystod eang o faterion addysgol. Byddwn hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau sefydliadau addysg a hyfforddiant eraill, lle bo hynny'n berthnasol, fel ymgynghoriadau ar ddiwygio cymwysterau gan Cymwysterau Cymru, ac ymatebion i ymgynghoriadau gan sefydliadau fel Comisiynydd y Gymraeg neu'r Comisiynydd Plant.

**Adroddiad Blynyddol PAEM**

Bydd Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2020-2021 yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Rhagfyr 2021. Bwriad gwreiddiol yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod hwn oedd defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau ymgysylltu i adrodd ar y cynnydd roedd ysgolion a gynhelir ac UCDau yn ei wneud o ran cynllunio a pharatoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae'r pandemig COVID-19 yn golygu y bydd yr adroddiad blynyddol bellach yn canolbwyntio ar ymateb darparwyr ym mhob sector i'r heriau a wynebwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Daw'r wybodaeth hon o unrhyw fath o ymgysylltiad y mae arolygwyr wedi'i gael â darparwyr, gan gynnwys galwadau ymgysylltu, galwadau ffôn, galwadau bugeiliol gan arolygwyr ac unrhyw ymweliadau y mae arolygwyr wedi gallu ymgymryd â nhw.

# Amcan strategol 3 – Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Gweminarau a chynadleddau

Byddwn yn ymestyn y rhaglen weminarau a gynhelir gennym i ledaenu tystiolaeth ac arfer effeithiol o'n hadroddiadau thematig. Yn ystod 2021-2022, byddwn yn cynnal cyfres o weminarau i helpu i hyrwyddo dulliau effeithiol o gaffael iaith, ar ôl cyhoeddi ein hadroddiadau thematig ar iaith a llythrennedd Saesneg, a chaffael y Gymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd. Rydym wedi cynnal un weminar yn gysylltiedig â Pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a byddwn yn cynnal dwy weminar arall yn y gyfres hon yn nhymor yr hydref. Byddwn yn parhau i gyfrannu at gynadleddau a gweithdai ledled Cymru i rannu arfer.

## Hyfforddiant i arolygwyr allanol

Cafodd ein rhaglen arferol o hyfforddiant i arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid, partneriaid gwella awdurdodau lleol ac arolygwyr lleyg ei hatal y llynedd, yn unol ag atal arolygiadau craidd.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cynnwys arolygwyr allanol yn ein gwaith, ac felly mae'n bwysig ein bod yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i bob un ohonynt. Er y gallai gweithgareddau wyneb-yn-wyneb fod yn bell i ffwrdd, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen o ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol ar-lein ar gyfer ein holl arolygwyr allanol. Yn ystod tymor yr haf 2021, rydym yn cynnal sesiynau galw heibio i rai arolygwyr (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr lleyg) i drafod ein trefniadau arolygu newydd. Yn nhymor yr hydref, rydym yn bwriadu cyflwyno'r sesiynau galw heibio hyn i arolygwyr cymheiriaid hefyd. Y tymor hwn, byddwn hefyd yn cynnal rhywfaint o hyfforddiant ar ein trefniadau arolygu newydd i'r arolygwyr allanol hynny sy'n rhan o arolygiadau peilot penodol. Yn nhymor y gwanwyn 2022, rydym yn bwriadu cynnal hyfforddiant ar y trefniadau arolygu newydd i bob arolygydd cyn i arolygiadau ailddechrau.

Eleni, rydym yn cynllunio dull cymysg, a fyddai'n cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu ar-lein, yn ogystal ag amser i arolygwyr gymryd rhan mewn modiwlau a gweithgareddau dysgu o bell i gefnogi myfyrio personol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan bob arolygydd wybodaeth gyfredol a'u bod yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau wrth i ni ystyried ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb i'r pandemig.

Yn gynharach yn nhymor yr haf 2021, cynhaliom hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr cymheiriaid newydd i arolygu'r sector addysg gychwynnol athrawon. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn hyfforddi arolygwyr cymheiriaid newydd. Bydd hyn yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol, a ohiriwyd y llynedd. Mae'r digwyddiadau hyfforddiant cychwynnol hyn yn debygol o fod â model cymysg, a fydd yn cynnwys elfennau o hyfforddiant ar-lein wedi'u cefnogi gan fyfyrio proffesiynol personol, ynghyd â gweithgareddau ac asesiadau wyneb-yn-wyneb, pan fydd yn ddiogel ac yn briodol i ni wneud hynny.

## Arolygwyr cyswllt

Bydd ein harolygwyr cyswllt rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn parhau â'u gwaith cyfredol ym mhob awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol yng Nghymru. Bydd yr ymgysylltiadau hyn yn rhai rhithiol, gan mwyaf, ond byddant hefyd yn cynnal ymweliadau corfforol er mwyn ychwanegu gwerth cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, pan fydd yn briodol ac yn ddiogel gwneud hynny. Ein nod yw y bydd ein harolygwyr cyswllt yn meithrin perthynas agos ac ymddiriedus ag arweinyddiaeth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a bod yn gyswllt cyntaf ar gyfer rhannu datblygiadau, myfyrio ar lwyddiannau a heriau, a rhannu arfer effeithiol.

Bydd arolygwyr cyswllt yn canolbwyntio ar ystod o agweddau ar waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ystod y flwyddyn. Byddant yn cyfarfod ag uwch reolwyr i drafod blaenoriaethau strategol a risgiau, a byddant yn mynychu (yn rhithiol neu wyneb-yn-wyneb) pwyllgorau craffu priodol ac, yn achos gwaith rhanbarthol, y cydbwyllgor neu fwrdd y cwmni.

Byddwn yn cynnal gweithdai asesu risg ym mhob awdurdod lleol â chydweithwyr o Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd ein harolygwyr cyswllt ôl-16 yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr addysg bellach, prentisiaethau, hyfforddeiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr yn y sector dysgu mewn cyfiawnder a cholegau arbenigol annibynnol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig, ac yn rhannu arfer ddiddorol ac arfer sy'n dod i'r amlwg ar draws y sectorau ôl-16.

## Lledaenu astudiaethau achos

Rydym yn ymrwymo i nodi a lledaenu arfer effeithiol a welwn yn ystod gweithgareddau arolygu a gwaith ymgysylltu arall. Mae hyn yn sicrhau y gall pob darparwr elwa ar waith darparwyr eraill. Dros y blynyddoedd, rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos o arfer effeithiol, ddiddorol ac arloesol ar ein gwefan i annog arweinwyr, rheolwyr a staff i fanteisio arnynt at ddibenion hyfforddiant a datblygiad, a gosod safonau proffesiynol uchel.

Eleni, byddwn yn parhau i gyhoeddi cameos ac astudiaethau achos sy'n dangos sut mae darparwyr wedi mynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar ein gwefan dan arfer effeithiol.

## Dathlu arfer ragorol

Pan fydd yn ddiogel ac yn briodol i ni ailgydio â'n rhaglen o arolygiadau craidd, byddwn yn cydnabod ac yn dathlu arfer effeithiol, arloesol a diddorol ar draws ystod o ddarparwyr.

Efallai na fydd yn bosibl i ni wneud hyn mewn digwyddiad wyneb-yn-wyneb, felly byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau rhithiol eleni. Hefyd, byddwn yn anfon tystysgrif wedi'i fframio at bob un o'r darparwyr a gydnabuwyd, ynghyd â llythyr personol gan PAEM yn eu llongyfarch am eu gwaith rhagorol. Byddwn hefyd yn rhestru'r darparwyr sydd wedi dangos rhagoriaeth drwy eu gwaith ar ein gwefan, a chyfeirir atynt yn ein Hadroddiad Blynyddol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru at eu cyflawniadau.

## Ein gwefan

Ers ail-lansio ein gwefan, rydym wedi parhau i wella ei hymarferoldeb i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr fanteisio ar ein cynnwys. Ein prosiect nesaf fydd cyflwyno dogfennau HTML i ddisodli dogfennau PDF ar gyfer rhai meysydd. Rydym yn dechrau ag arweiniad atodol i gynorthwyo ein harolygwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae dogfennau HTML yn cynnig nifer o fanteision i ddefnyddwyr, fel ymateb i faint y sgrin ac maent yn hawdd eu llywio. Rydym hefyd yn bwriadu manteisio ar dechnoleg 'H5P' i gyflwyno cynnwys rhyngweithiol newydd i helpu i gefnogi gwelliant ar draws addysg a hyfforddiant.

## Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac ysgolion i ddatblygu'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys ailsefydlu trefniadau llywodraethu ar y cyd i sicrhau goruchwyliaeth briodol a chytundeb yn ymwneud â'r holl weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Gohiriwyd y trefniadau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd COVID-19. Byddwn yn cyfrannu at ddatblygiad strategol yr adnodd drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol i ddatblygu cyfres o ddewisiadau yn ymwneud â datblygu ac arbrofi â deunyddiau, a'u cyflwyno i ymarferwyr.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd aelodau tîm y prosiect yn cynorthwyo ag agweddau ar ddatblygu'r adnodd.

Bydd gwaith parhaus yn cynnwys:

- mireinio a golygu cynnwys yr adnodd
- cysylltu'r sbardunau myfyrio ag adnoddau presennol Llywodraeth Cymru ac Estyn
- golygu'r testun dulliau yn adran 'SUT' yr adnodd
- darparu deunyddiau enghreifftiol i gryfhau'r adran 'SUT', er enghraifft i gynorthwyo ysgolion i feddwl am sut y gallant ddefnyddio data
- adnewyddu deunyddiau am y Daith Wella ac astudiaethau thematig cysylltiedig i'w cynnwys yn yr adnodd
- cynllunio a gweithredu strategaeth cyfathrebu, ymgysylltu a dysgu proffesiynol
- cadarnhau a gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer adnoddau (mae'r drafft wedi'i gwblhau, angen ei roi ar waith ac arbrofi ag ef)
- cytuno ar strategaeth i gipio adnoddau a chasglu adborth yn ystod y flwyddyn beilot

## Cynghori ar ddiwygio addysg yn y tymor hir a chyfrannu ato

Byddwn yn parhau i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ei rhaglenni diwygio addysg, gan gynnwys p'un a fydd angen addasu'r rhaglenni hyn, a sut i wneud hynny, yn sgil y sefyllfa bresennol.

Yn ogystal â'n haelodaeth ar fyrddau cyflawni a newid Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm i Gymru a Diwygio AHO, mae gennym gynrychiolaeth ar y grŵp 'ymateb i COVID-19' hefyd. Mae gennym ymgysylltiad llawn, parhaus â'r grŵp

‘parhad dysgu’ a’r ‘Cynllun Cydnerthedd’ ar gyfer y sectorau ôl-16, ac rydym hefyd yn rhan o grŵp rhwydwaith ymchwil Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021-2022, byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion ac UCDau, consortia, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i werthuso cynnydd y system gyfan tuag at ddiwygio’r cwricwlwm. Bydd ein hymgysylltiad ag ysgolion ac UCDau yn parhau i ganolbwyntio ar y camau y maent yn eu cymryd i baratoi staff ar bob lefel i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a, lle bo hynny’n bosibl, effaith y newidiadau hyn ar wella addysgu a sicrhau cynnydd i bob dysgwr.

Pan fyddwn yn ailgydio mewn arolygiadau craidd yn ystod 2021-2022, byddwn yn gwerthuso pa mor dda mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i baratoi ar gyfer diwygio’r cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw dysgu proffesiynol yn cynorthwyo staff i wella eu dealltwriaeth, y camau a gymerwyd ganddynt i ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, a sut mae staff yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu dulliau ar gyfer addysgu a dysgu.

Byddwn yn parhau i nodi a rhannu arfer effeithiol drwy ein gwaith thematig a’n gwaith arolygu, a byddwn yn parhau i ddefnyddio blogiau a gweminarau ar-lein.

# Sut rydym yn cyflawni ein gwaith



## Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

Mae sefyllfa COVID-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i ni addasu ffocws a chyflawniad ein holl waith, ond mae ein cenhadaeth, ein gweledigaeth, ein hamcanion strategol a'n gwerthoedd yn parhau heb eu newid:

### Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

### Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

### Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Encourage responsibility, initiative and innovation

## Adeiladu sefydliad gwell a byw'n unol â'n gwerthoedd

Ein nod yw gwella'n barhaus. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi ei gwneud yn ofynnol i ni addasu ein systemau a'n harferion gwaith i fodloni'r heriau ac elwa ar gyfleoedd gweithio o bell; byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i barhau i ddatblygu fel sefydliad effeithlon ac effeithiol sy'n cyflawni i'n rhanddeiliaid ac i ni'n hunain.

Yn 2021-2022, byddwn yn adeiladu ar yr arferion gwaith effeithiol sy'n ategu effeithlonrwydd a mwy o degwch, hyblygrwydd a lles i staff. Byddwn:

- yn parhau i ddefnyddio cyfarfodydd rhithiol, lle mae hyn yn cefnogi mynediad a phrofiad cyfartal
- yn datblygu trefniadau ffurfiol i gefnogi cyfleoedd gweithio mwy hyblyg
- yn adolygu ein gofynion o ran swyddfa ac yn edrych ar gyfleoedd i rannu cyfleusterau a lleihau ein lle swyddfa ein hunain
- yn symud i systemau gwybodaeth wedi'u seilio ar gwmwl
- yn datblygu ein prosesau rheoli perfformiad
- yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr ysbrydoledig ym mhob rôl, gyda phobl fedrus ar draws sefydliad sy'n lle gwych i weithio ac sy'n denu pobl wych
- yn sicrhau bod ein rhaglen dysgu a datblygu yn cynorthwyo staff i ddatblygu'r medrau sy'n helpu i danategu ein gwerthoedd ymhellach

## Cryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ein gwaith, rydym wedi parhau i wrando ar ein rhanddeiliaid a dysgu oddi wrthynt, gan wneud yn siŵr fod ein cyfathrebiadau'n canolbwyntio yn unig ar y negeseuon pwysicaf ar y pryd. Byddwn yn parhau i sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd arolygu a bod ein gwaith yn adlewyrchu disgwyliadau ein rhanddeiliaid.

Eleni, bydd y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn esblygu wrth i ni ystyried ffyrdd newydd o weithio â'n rhanddeiliaid i ffurfio ein cynlluniau wrth i ni ymateb i'r pandemig. Byddwn yn ymgysylltu'n eang, ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol i gyrraedd grwpiau newydd a gwahanol o randdeiliaid, ac yn defnyddio eu safbwyntiau i helpu i gyfarwyddo ein gweithgareddau a gwella ein gwaith.

Rydym yn deall pwysigrwydd cynnal digwyddiadau ymgysylltu er mwyn rhannu negeseuon â rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd drefnus a strategol. Mae eleni'n gyfle i ni ailfeddwl a chryfhau sut rydym yn cynnal y digwyddiadau hyn fel eu bod yn hygyrch, yn gefnogol, yn fyfyriol ac yn dryloyw.

Byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau i randdeiliaid, fel fforymau sector a fforymau cenedlaethol, yn rhithiol nes bydd yn ddiogel ac yn briodol i ni gynnal digwyddiadau wyneb-yn-wyneb. Ar sail yr adborth a gasglwn, byddwn yn diweddaru ein hymagwedd tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid i adlewyrchu'r dulliau newydd hyn. Byddwn yn ystyried adborth o'n sianeli arferol, yn ogystal â chan ein grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr newydd a'n fforwm athrawon. Trwy ein holl ymgysylltu eleni, byddwn yn canolbwyntio ar wella'r ffordd rydym yn:

- **Hysbysu rhanddeiliaid:** rhoi negeseuon clir, cydlynus a chyson i randdeiliaid; rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau mewn arolygu, yr arfer effeithiol ddiweddaraf ac argymhellion o'n gwaith thematig a gwaith arolygu

- **Cynnwys rhanddeiliaid:** ceisio eu safbwyntiau ar drefniadau arolygu, rhoi sylwadau ar bolisi ac annog trafodaeth drwy ddulliau cyfathrebu gwahanol

- **Gwrando ar randdeiliaid:** manteisio i'r eithaf ar eu hamser drwy ofyn am eu barn, eu cynnwys mewn penderfyniadau a rhannu gwybodaeth, annog adborth ar ganmoliaeth a phryderon i helpu i lywio ein prosesau penderfynu a'n helpu i feithrin perthnasoedd gwell

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i rannu negeseuon allweddol o'n gweithgareddau arolygu ac ymgysylltu.

Y llynedd am y tro cyntaf, cyhoeddom sawl blog a chynnal ein cyfres gyntaf o weminarau i ledaenu canfyddiadau o'n gweithgarwch ymgysylltu â darparwyr a gwaith thematig. Hefyd, cyhoeddom ystod o adroddiadau sector a roddodd gipolwg gwerthfawr ar sut yr ymatebodd ysgolion, UCDau a darparwyr eraill i'r heriau a achoswyd gan y pandemig. Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r adroddiadau a'r blogiau hyn, yn ogystal â chynnal digwyddiadau i rannu arfer arloesol ac effeithiol. Ein nod hefyd yw cynnal digwyddiadau cynhadledd yn ystod y flwyddyn i rannu canfyddiadau o'n hadroddiadau thematig.

Mae ein grŵp cyfeirio penaethiaid, ymgysylltiad ag athrawon a gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol eraill, a'n grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr yn parhau i fod yn arfau gwrando gwerthfawr, sy'n rhoi mewnwelediad a her i ni gan y proffesiwn.

**Grŵp cyfeirio penaethiaid**

Yn 2019, gwahoddom benaethiaid ysgolion ac arweinwyr UCDau ar draws Cymru i wneud cais i ymuno â'r grŵp cyfeirio penaethiaid. Roedd cwmpas gwaith y grŵp cyfeirio yn deillio'n bennaf o argymhellion yr adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu'. Hyd yn hyn, mae gwaith y grŵp cyfeirio wedi canolbwyntio ar gynorthwyo i ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd, a hefyd y trefniadau dilynol ar gyfer arolygiadau a fydd wedi'u seilio ar ddilysu prosesau hunanwella ysgolion.

Roeddem wrth ein bodd â nifer ac ansawdd y ceisiadau a gawsom, a gwahoddom 22 o gynrychiolwyr, yn cynrychioli'r sectorau cynradd, uwchradd, annibynnol, arbennig ac UCDau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled Cymru, i ymuno â'r grŵp. Cyn y pandemig, roeddem yn cyfarfod bob tymor yng nghanolbarth Cymru ar gyfer gweithdai diwrnod cyfan. Ers y pandemig, cynhaliwyd ein cyfarfodydd yn rhithiol. Bu'r cyfarfodydd rhithiol yr un mor werthfawr o ran cynnig cyfrwng ar gyfer ein gwaith datblygu, a helpu i ddarparu adborth a 'gwirio synnwyr a realiti' wrth i ni lunio dulliau methodolegol newydd ar gyfer ein gwaith. Er enghraifft, mae'r grŵp cyfeirio wedi lleisio ei farn ar yr holiaduron rydym yn eu defnyddio cyn arolygiadau sydd, yn ei thro, wedi helpu i lywio ein meddylfryd a newidiadau dilynol i'r ffordd y mae'r holiaduron wedi'u trefnu a'u geirio.

Yn ystod 2021-2022, rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â'r grŵp a chasglu ei

adborth ar y newidiadau i'n trefniadau arolygu a gweithgarwch dilynol, a'r ffordd orau i gyfleu'r newidiadau hyn i arweinwyr ysgolion eraill.

**Ymgysylltu ag athrawon a gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol eraill**

I ategu ein gwaith ymgysylltu, cynhaliom gyfres o fforymau athrawon. Bu adborth gan athrawon yn gadarnhaol, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu eu safbwyntiau ar agweddau ar ein gwaith. Cynhaliom grwpiau ffocws cenedlaethol i staff hefyd gyda gweithwyr ôl-16 proffesiynol i gasglu adborth fel rhan o'n hadolygiadau thematig, a gafodd eu croesawu'n gadarnhaol hefyd.

Byddwn yn ymestyn y gwaith hwn eleni i gynnwys ymgysylltu ag athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill fel llinyn o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn ystod 2021-2022, rydym hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp cyfeirio ôl-16 a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, colegau addysg bellach, colegau arbenigol annibynnol a darparwyr dysgu yn y gwaith i drafod newidiadau i'n trefniadau arolygu cyfredol. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod o fis Medi, a bydd aelodau'n adrodd yn ôl i'w sectorau i gael adborth a helpu i lywio ein trefniadau. Byddwn hefyd yn ceisio adborth gan ddysgwyr ar wahân, ac yn cynnwys hyn yn ein trefniadau ymgynghori.

**Grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr**

Rydym bob amser wedi gwerthfawrogi safbwyntiau rhieni a gofalwyr ac rydym yn gwrando arnynt yn ofalus. Yn gynharach eleni, gwellom y ffordd rydym yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn drwy sefydlu grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr newydd. Bydd ymgysylltu'n effeithiol ac yn rheolaidd â rhieni a gofalwyr yn eu galluogi i leisio eu barn i lywio ein penderfyniadau a'n helpu i lunio prosiectau'r dyfodol.

Yn ystod 2021-2022, rydym yn bwriadu gofyn i'r grŵp lenwi arolygon, dod yn rhan o grwpiau trafod a mynegi eu barn ar bynciau penodol i gryfhau ein sail dystiolaeth genedlaethol ar gyfer adroddiadau thematig, a llywio sut rydym yn mynd ati i wneud ein gwaith.

Bydd y dull ychwanegol hwn ar gyfer cyfleu ein gwaith yn darparu dull cyfathrebu dwyffordd pwysig i ni, yn ogystal â'n galluogi i gael ymatebion cyflym i gael barn rhieni, yn ôl y gofyn.

## Gweithio ar y cyd â chyrff arolygu

Ein nod yw parhau â'n gwaith ar y cyd a'n cydweithredu cyfredol ag arolygiaethau yn y DU a'r tu hwnt, ac adeiladu arnynt.

Ar hyn o bryd, mae gennym bedair partneriaeth ag arolygiaethau yn y DU sy'n ein cynorthwyo i gyflawni amcan strategol 1 "darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru".

- Ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru (AC), ni yw Arolygu Cymru. Rydym yn cydweithio ar ein harolygiadau o leoliadau nas cynhelir (gydag AGC) a gwasanaethau addysg

llywodraeth leol (gydag AC), ac yn nodi cyfleoedd eraill i rannu arbenigedd a chydweithio â'n gilydd.

- Mae gennym bartneriaeth rhannu gwybodaeth ag Ofsted yn ymwneud â dysgwyr yn Lloegr sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n mynychu colegau arbenigol, ac yn ymwneud â darparwyr prentisiaethau yng Nghymru sy'n cael cyllid gan Loegr.

- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag AEM Carchardai ac AEM Prawf i arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys arolygu Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru.

- Rydym yn cydweithio'n agos â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i rannu arfer, trafod gwella ansawdd a gwybodaeth am ddarparwyr unigol yn ymwneud ag addysg bellach ac uwch a hyfforddiant.

Nodau'r partneriaethau hyn yw cydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflawni ein rhaglenni gwaith unigol, a rhannu gwybodaeth rhwng ein sefydliadau. Mae ein gwaith ar y cyd wedi'i lywodraethu gan egwyddorion clir ac amcanion cytûn a, gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i gynyddu'r effaith a gawn gyda'n gilydd i sicrhau deilliannau gwell i ddinasyddion, a cheisio dod o hyd i ffyrdd i ddiogelu eu buddiannau drwy adrodd yn ddiduedd ar y gwasanaethau cyhoeddus sy'n disgyn o fewn ein cylch gwaith.

Trwy'r grwpiau Alltraeth, rydym yn rhannu gwybodaeth ac arfer yn rheolaidd â gwledydd cyfagos ar lefel strategol a gweithredol i lywio datblygiad parhaus yr aelod-arolygiaethau mewn cyd-destunau addysgol a gwleidyddol tebyg. Bydd llawer o'n gwaith ar y cyd yn ystod 2021-2022 yn canolbwyntio ar rannu dulliau arolygu ac adfer y cwricwlwm yn sgil yr effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y system addysg ac ar ddeilliannau i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid dyma fydd unig ffocws ein gwaith. Byddwn yn parhau i feithrin rhaglenni cyfnewid ag arolygiaethau addysg eraill yn y DU. Ar gyfer 2021-2022, bydd cyfres o gyfarfodydd rhithiol ag Adran Addysg a Hyfforddiant Iwerddon, a fydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu mewn ysgolion ac UCDau, gan gynnwys dysgu cyfunol, cynorthwyo dysgwyr bregus, dysgu proffesiynol i arolygwyr, a chymorth i ysgolion sy'n cael trafferth.

Yn ein grwpiau Alltraeth ôl-16, mae ein cyfarfodydd misol yn rhannu dulliau arolygu ac adolygiadau thematig. Yn 2021-2022, bydd cyfarfodydd yn canolbwyntio ar drafod dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol, prentisiaethau, a chyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, gyda'r posibilrwydd y bydd arolygwyr o arolygiaethau eraill yn y DU yn ymuno â'n hadolygiad thematig o gyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc gan Gyrfa Cymru.

Mae ein hymgysylltiad parhaus â gweithgareddau Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau, sydd â 34 o aelodau ledled Ewrop a'r tu hwnt, yn sicrhau ein bod yn elwa ar y gallu i ddysgu oddi wrth arolygiaethau eraill a'u prosesau. Mae hefyd yn cynnig cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth ryngwladol am arolygu a gwerthuso, a chyfrannu ati, mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag pwysau domestig neu wleidyddol. Yn ogystal â mynychu gweithdai a chynadleddau, naill ai'n rhithiol neu wyneb-yn-wyneb, bydd swyddogion arweiniol unigol yn parhau i feithrin cysylltiadau ag arolygiaethau eraill ar draws Ewrop i gydweithredu ar ddatblygiadau sefydliadol,

fel ymchwil a dulliau arolygiadau thematig, arolygu addysg gychwynnol athrawon, a dulliau o arolygu cwricwla.

Mae rhaglenni cyfnewid a chyfleoedd i gydweithredu fel y rhain yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol arolygwyr, datblygu arfer arolygu yn awdurdodaethau cartref yr arolygwyr, ac felly'n cyfrannu at wella deilliannau addysgol i ddysgwyr. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi ein galluogi i archwilio ffyrdd effeithlon o rannu'r cyfryw wybodaeth ac arfer, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y dulliau hyn yn ystod 2021-2022.

## Adborth a chwynion

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Ein nod yw gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Fodd bynnag, os na fydd rhywun yn hollol fodlon ag unrhyw agwedd ar ein gwaith, rydym yn eu hannog i roi gwybod i ni ac fe wnawn ein gorau i ddatrys y mater cyn gynted ag y bo modd. Mae ein proses adborth a chwynion yn amlinellu sut rydym yn mynd i'r afael ag adborth a chwynion am arolygu ac agweddau eraill ar ein gwaith, ac yn ymateb iddynt.

Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff pob cwyn a dderbynnir ei harchwilio'n llawn ac yn deg, yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u hamlinellu yn ein polisi. Byddwn yn rhoi sylw penodol i gwynion sy'n cael eu derbyn o ganlyniad i'r pandemig, ac yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r rhai y mae eu cwynion yn ymwneud â darparwyr addysg yn hytrach na'n gwaith ein hunain. Byddwn hefyd yn ystyried yr holl bryderon a gawn yn ymwneud â'n fframwaith arolygu newydd.

## Arweinwyr effeithiol a llywodraethu da

Mae ein fframwaith llywodraethu o fyrddau, pwyllgorau a grwpiau, gan gynnwys ein fframwaith sicrwydd, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol fel sefydliad effeithlon, sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n atebol i'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

O fewn y fframwaith, bydd cyfarwyddwyr anweithredol, sy'n gwasanaethu fel aelodau ac yn cadeirio ein Bwrdd Strategaeth a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yn parhau i herio a chefnogi'r uwch dîm rheoli.

Disgwylir i'n harweinwyr fodelu rhinweddau ein Datganiad Arweinyddiaeth yn effeithiol, drwy ddatblygu eu hunain yn gyson i fod y gorau y gallant fod. Bydd ein prosesau rheoli perfformiad yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar ymddygiad a'n gwerthoedd.

## Pobl fedrus

Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant ac amgylchedd i bawb ddysgu a thyfu. Rydym yn cydnabod bod dysgu a datblygu effeithiol yn cynnig manteision i'r unigolyn a'r sefydliad, sy'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion strategol yn y pen draw.

Byddwn yn darparu adnoddau ar gyfer ystod o ddulliau dysgu a datblygu er mwyn datblygu staff hyblyg, sy'n perfformio'n uchel, sy'n gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn cymryd cyfrifoldeb personol dros eu gwaith a'u lles. Yn 2021-2022, byddwn yn

parhau i hwyluso gweithgareddau dysgu a datblygiad proffesiynol rhithiol, ac yn dychwelyd i weithgareddau wyneb-yn-wyneb pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Byddwn yn uwchsgilio ein harweinwyr i arwain a chynorthwyo ein pobl i addasu i ffyrdd newydd o weithio wrth i ni barhau i ymateb i'r pandemig COVID-19 ac adfer ar ei ôl.

Byddwn yn parhau â'n cynllun i ddysgu proffesiynol a datblygiad ein harolygwyr ganolbwyntio ar gefnogi diwygio'r cwricwlwm, AHO ac ADY, a dysgu proffesiynol a hunanwerthuso er mwyn gwella.

Byddwn:

- yn cryfhau ein strategaeth dysgu a datblygiad proffesiynol
- yn ehangu 'dewislen' bresennol y gweithgareddau dysgu a datblygu, gyda chydbwysedd o ddulliau 'traddodiadol', 'dysgu drwy brofiad' a 'dysgu ar sail perfformiad' ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol
- yn nodi meysydd blaenoriaeth â ffocws, gan ystyried y wybodaeth, medrau a'r ymddygiad sydd eu hangen ar ein harolygwyr, a mynd i'r afael â bylchau o ran medrau a nodwyd yn ein dadansoddiad o anghenion datblygiad proffesiynol
- yn parhau i adolygu a gwella trefniadau ar gyfer cynllunio gweithredol a gwerthuso dysgu a datblygiad proffesiynol arolygwyr, a gwerthuso effaith dysgu a datblygiad proffesiynol ar fedrau, gwybodaeth ac arferion arolygwyr
- cynnal y cynnydd a wnaed i sicrhau bod wythnosau dysgu a datblygiad proffesiynol yn cefnogi'r strategaeth dysgu a datblygiad proffesiynol i arolygwyr
- yn datblygu llwybrau datblygiad proffesiynol i arolygwyr drwy brosiectau ymchwiliad personol a gweithgareddau wedi'u llywio gan ymchwil
- yn datblygu llwybrau gyrfa a llwybrau dilyniant posibl i arolygwyr yn ein sefydliad

Ffocws penodol ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd cynnig rhaglen ymsefydlu, dysgu proffesiynol a mentora i'n carfan newydd o arolygwyr.

Byddwn yn rhoi ein cynllun ar waith ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol i staff gwasanaethau corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â grŵp o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ar raglen datblygu arweinyddiaeth sy'n cwmpasu medrau rheoli hanfodol ac arweinyddiaeth strategol.

## Lle gwych i weithio

Rydym yn cydnabod mai ein pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr, a bod pob unigolyn yn dod â medrau a phrofiad gwahanol i'n sefydliad, ac rydym yn annog pob un o'n pobl i ddatblygu eu doniau, yn croesawu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau.

Byddwn yn ceisio cynnal ein sgôr ymgysylltu cyson uchel yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Byddwn yn parhau i wrando ar ein pobl ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Byddwn yn defnyddio'r broses Buddsoddwyr Mewn Pobl i helpu i werthuso pa mor agos rydym yn 'byw'n unol â'n gwerthoedd' ac i nodi gwelliannau sefydliadol pellach. Ein nod yw parhau i ddatblygu staff mewn amgylchedd cefnogol ac ymddiriedus, a fydd yn helpu i gynnal ein lefelau uchel o ymgysylltiad.

Mae manylion llawn am fuddion gweithio i ni i'w gweld ar ein gwefan yma.

## Cydraddoldeb a lles staff

Byddwn yn parhau i gefnogi amgylchedd gwaith teg a chynhwysol drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Byddwn yn parhau i hybu a chefnogi lles staff drwy gamau gweithredu sy'n alinio â 'chynllun gweithredu' ein Safon Iechyd Corfforaethol. Ein nod fydd cael ein hailachredu â'r Safon yn 2021-2022.

Byddwn yn parhau i roi pwyslais penodol ar gefnogi lles staff i ymdrin â ffyrdd newydd o weithio a heriau eraill sy'n deillio o COVID-19. Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu'r offer a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar ein staff i barhau i wneud eu gwaith yn ddiogel yn ystod y pandemig. Yn ystod 2021-2022, byddwn yn ymgynghori â staff ar ffyrdd newydd o weithio, ar ôl y pandemig, a rheoli'r trawsnewidiad i'r normal newydd.

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw cyflawni deilliannau gwell i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a byddwn yn sicrhau bod ein penderfyniadau strategol yn ystyried ysbryd y ddyletswydd.

Trwy gynllun gweithredu ein Haddewid Amser i Newid, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl. Trwy ein cylchlythyr, ymgyrchoedd iechyd a hysbysfyrddau, byddwn yn rhannu profiadau iechyd meddwl, gyda'r nod o leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

## Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i gynnal diogelwch a lles pobl ifanc ac oedolion bregus. Byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus yn ein holl waith. Ym mhob agwedd ar ein gwaith, rhaid rhoi anghenion, buddiannau a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus uwchlaw anghenion a buddiannau pawb arall. Trwy hyfforddiant priodol, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth ein staff o gam-drin, esgeulustod ac arfer broffesiynol anniogel yn y lleoliadau rydym yn eu harolygu ac mewn lleoliadau eraill rydym yn ymweld â nhw. Byddwn yn parhau i sicrhau bod pob aelod staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ganddynt bryderon. Byddwn yn parhau i ddilyn gweithdrefnau diogelu y cytunwyd arnynt yn lleol ac yn atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a/neu'r heddlu, lle bo hynny'n briodol.

Trwy ein harolygiadau, ymweliadau monitro ac ymgysylltiad â darparwyr, byddwn yn parhau i werthuso pa mor dda mae darparwyr addysg a hyfforddiant yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sy'n diogelu plant a, lle y bo'n briodol, oedolion bregus. Byddwn yn parhau i gydweithio'n weithredol ag asiantaethau eraill i ymateb i fentrau cenedlaethol a lleol, a datblygu strategaethau sydd wedi'u llunio i atal a/neu leihau'r risg o gam-drin.

I ategu a rheoli'r gwaith hwn, mae gennym dîm dynodedig o swyddogion diogelu, gan gynnwys cyfarwyddwr strategol dynodedig, sy'n gyfrifol am oruchwylio'n strategol pob agwedd ar ddiogelu yn ein sefydliad. Bydd y tîm diogelu yn cynghori

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar unrhyw gamau sydd eu hangen i ddiogelu plant ac oedolion bregus, gan gynnwys unrhyw gyngor y mae angen ei roi i gyrff statudol eraill, er enghraifft Llywodraeth Cymru. Bydd y tîm diogelu hefyd yn cadw crynodeb parhaus o faterion perthnasol, gan gynnwys gweithredu ein gweithdrefnau diogelu a dadansoddiad o'r ymholiadau, cwestiynau a'r atgyfeiriadau a wneir i ni. Bydd y materion hyn yn destun adroddiadau tymhorol a blynyddol i'n Bwrdd Gweithredol.

Yn benodol, yn 2021-2022, byddwn yn cynnal cynllun peilot arall ar gyfer Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) mewn ardal awdurdod lleol, drwy gydweithio ag AGC ar arolygiaethau eraill yn y DU.

## Safonau'r Gymraeg

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y gwaith a wnawn, yn fewnol ac yn allanol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn ogystal ag wrth arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac adolygu ein polisïau a'n dulliau o fodloni safonau'r Gymraeg, fel y nodwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae ein Polisi Iaith Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

## Adrodd ar gynaliadwyedd a bioamrywiaeth

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyflwynodd y ddeddf hon ddyletswydd i awdurdodau cyhoeddus wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, rydym yn ceisio ymgorffori ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein syniadau cynnar a'n cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'n gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Adroddom ar sut mae ystyried bioamrywiaeth yn cael ei ymgorffori yn Estyn yn ein Hadroddiad amgylcheddol (gan gynnwys adrodd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau) Tachwedd 2020 a byddwn yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd yn ein Polisi Amgylcheddol 2021-2022.

## Mesur ac adrodd ar berfformiad

Mae'r sefyllfa COVID-19 wedi parhau i effeithio ar ein gweithgareddau craidd arferol, a bydd gennym lefelau gweithgarwch is mewn meysydd penodol sy'n cael eu cwmpasu gan ein mesurau perfformiad sefydlog. Bydd yn bwysig o hyd ein bod yn parhau i fesur a monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn er mwyn helpu:

- gwerthuso effeithiolrwydd ein prosesau
- dysgu o brofiad
- gwella perfformiad
- gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau

### Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 1

**Ein nod yw:**

- sicrhau bod arolygiadau a'u hadroddiadau yn bodloni'r gofynion ansawdd a amlinellir yn ein fframweithiau cyhoeddedig ar gyfer arweiniad arolygu a'u bod yn cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen statudol
- sicrhau bod profiad darparwyr o arolygu yn broses gadarnhaol sy'n hybu gwelliant
- sicrhau bod ymweliadau ymgysylltu yn broses gadarnhaol sy'n casglu tystiolaeth werthfawr i lunio adroddiadau cenedlaethol

**Byddwn yn mesur ac yn adrodd ar:**

- ganran yr adroddiadau arolygu sy'n cael eu cyhoeddi cyn pen amserlenni statudol neu gytûn
- canran yr adroddiadau arolygu cyhoeddedig y mae angen eu diwygio ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her i farnau a gadarnhawyd
- nifer y cwynion am y broses arolygu sy'n cael eu cadarnhau
- adborth darparwyr (holiaduron) am eu profiad o arolygiad a boddhad â dibynadwyedd ac annibyniaeth barnau
- nifer y darparwyr sy'n cael eu rhoi mewn categori statudol neu eu tynnu ohono ar ôl arolygiad
- nifer y galwadau/ymweliadau ymgysylltu a gynhelir ag ysgolion a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion)

### Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 2

**Ein nod yw:**

- cyhoeddi Adroddiad Blynyddol PAEM sy'n addysgiadol ac yn ddylanwadol
- sicrhau bod yr holl flaenoriaethau sy'n cael eu hamlinellu yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog yn llywio ac yn effeithio ar ddatblygu polisi cenedlaethol ac yn cael eu cyhoeddi'n unol â therfynau amser cytûn
- sicrhau ein bod yn cael effaith ar ddatblygiad ehangach polisi cenedlaethol a mentrau addysg a hyfforddiant drwy gyflwyno papurau a thystiolaeth i grwpiau a phwyllgorau

**Byddwn yn mesur ac yn adrodd ar:**

- ddadansoddeg y cyfryngau a'r wefan ar Adroddiad Blynyddol PAEM
- canran yr argymhellion ar gyfer gwella mewn adroddiadau thematig y mae Llywodraeth Cymru yn eu derbyn/rhoi ar waith yn llawn
- nifer a dylanwad y cyngor ar gynigion ad-drefnu ysgolion
- nifer a dylanwad yr ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru
- nifer y grwpiau a'r cyfarfodydd pwyllgor a fynychir gan arolygwyr
- adborth ar bapurau a thystiolaeth a gyflwynir

**Amcanion perfformiad yn erbyn ein Hamcan Strategol 3**

**Ein nod yw:**

- sicrhau bod ein digwyddiadau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant, a digwyddiadau i randdeiliaid, yn bodloni anghenion cynrychiolwyr
- gwella'r gallu i ddarparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- nodi arfer ddiddorol, arloesol ac sy'n werth ei rhannu

**Byddwn yn mesur ac yn adrodd ar:**

- nifer y digwyddiadau a gynhelir (digwyddiadau i randdeiliaid / digwyddiadau hyfforddiant)/cynrychiolwyr
- lefelau boddhad cynrychiolwyr ar sail adborth o holiaduron
- nifer yr arolygiadau sy'n cynnwys un neu ragor o arolygwyr cymheiriaid
- nifer yr astudiaethau achos arfer effeithiol sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a'r nifer o weithiau yr edrychir arnynt/y cânt eu lawrlwytho

**Amcanion perfformiad yn erbyn 'sut rydym yn cyflawni ein gwaith'**

**Ein nod yw:**


- ymgysylltu'n fwy effeithiol â'n holl randdeiliaid a gweithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r tu hwnt – rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth i gefnogi gwelliant
- creu a chynnal gweithlu ymgysylltiedig a medrus
- ymateb i geisiadau am wybodaeth, ac adborth a chwynion, a'u defnyddio i'n helpu i wella
- bodloni ein cyfrifoldebau statudol a gweithgareddau corfforaethol allweddol yn llawn, gan gynnwys cydraddoldeb, safonau'r Gymraeg a chynaliadwyedd
- sicrhau llywodraethu da a rheolaeth ariannol briodol

**Byddwn yn mesur ac yn adrodd ar:**

- sgôr mynegai ymgysylltiad Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil
- cyfradd absenoldebau salwch staff
- trosiant staff
- cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon cyn pen yr amserlen statudol, heb unrhyw amodau na Llythyr Rheoli archwilio
- gweithredu a chynnal a chadw cynlluniau gweithredu'n barhaus i fodloni ein

cyfrifoldebau statudol a'n gweithgareddau corfforaethol allweddol
- canran yr anfonebau diamheuol sy'n cael eu talu cyn pen 10 / 30 diwrnod
- canran yr ymatebion i bob cwyn a chais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n cael eu cwblhau cyn pen 20 diwrnod gwaith o'u derbyn
- nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol
- canlyniadau asesiadau allanol (achrediadau gan gynnwys Buddsoddwyr Mewn Pobl, Safon y Ddraig Werdd, y Safon Iechyd Corfforaethol) ac archwiliadau cydymffurfedd, er enghraifft yr iaith Gymraeg
- ein gwaith ar y cyd, gan gynnwys nifer y digwyddiadau rhanddeiliaid allanol a fynychir gan ein staff, nifer yr arolygiadau ar y cyd a gynhelir

**Ein cyllideb ar gyfer 2021-2022**



Yn gynharach eleni, cytunom â Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cyllid grant ychwanegol i gwmpasu'r costau ychwanegol ar gyfer staffio ymweliadau ymgysylltu a'n gwaith yn ymwneud ag ysgolion uwchradd sy'n peri pryder.  Byddwn ond yn defnyddio'r cyllid hwn, nad yw wedi'i gynnwys yn y graffig uchod, os na allwn fodloni costau'r gwaith ychwanegol hwn o'r arbedion rydym yn disgwyl eu cyflawni drwy barhau i atal ein gweithgareddau arolygu craidd; hynny yw, drwy arbedion a fydd yn codi o'n costau gostyngol ar gyfer arolygwyr allanol a threuliau teithio a chynhaliaeth gostyngol ein staff ein hunain wrth ymgymryd â gwaith arolygu.


Byddwn yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'n cysylltiadau addysg a chyllid yn Llywodraeth Cymru yn ymwneud â materion cyllidebol.  Os byddwn yn profi heriau wrth geisio cyflawni ein hymrwymiadau, fel anawsterau o ran adnoddau neu amserlennu, byddwn yn trafod y dewisiadau â Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i gydnabod y pwysau ar bwrs y wlad, ond byddwn hefyd yn cydnabod na fyddwn yn gallu cynnal arbedion y flwyddyn hon yn y dyfodol; byddai angen cyllid craidd ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-2023, a blynyddoedd dilynol, i gynnal lefelau staffio priodol i gyflawni ein rhaglen lawn o weithgareddau arolygu a gwaith arall.  Edrychwn ymlaen at gynnal trafodaethau priodol â Llywodraeth Cymru ynghylch sefyllfaoedd a goblygiadau ariannol yn y dyfodol cyn gynted ag y bo modd.

# Atodiadau

## 1: Ein diben a'n gweithgareddau craidd

## 2: Ein datganiad llesiant



## Atodiad 1: Ein diben a'n gweithgareddau craidd

Mae Estyn yn cael ei arwain gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) ac mae'n arolygu ansawdd a safonau.

Rydym yn gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Rydym yn annibynnol ar Senedd Cymru ond yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae ein gweithlu'n cynnwys tîm rheoli a staff gwasanaethau corfforaethol, sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, fel arfer, ond sy'n gweithio gartref ar hyn o bryd, ynghyd ag arolygwyr sy'n gweithio gartref. Rydym yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd), partneriaid gwella awdurdodau lleol, arolygwyr lleyg ac enwebeion (sy'n gweithredu fel cynrychiolydd y darparwr) i weithio'n rhan o dimau arolygu.

Rydym hefyd yn cefnogi trefniadau secondiad i mewn ac allan o'n sefydliad, lle bo hynny'n bosibl. Mae ein strwythur sefydliadol ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant. Rydym hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad, yn meithrin gallu ac yn rhannu arfer effeithiol. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill, cyrff addysg a rhanddeiliaid. Yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng, byddwn yn canolbwyntio ar gynnig tystiolaeth a chyngor annibynnol, gwrthrychol. Yn benodol, bydd ein gwaith yn llywio datblygiad polisi cenedlaethol, yn cynorthwyo'r system addysg a hyfforddiant i gyflawni parhad dysgu, ac yn cyfrannu at adferiad y system addysg yng Nghymru. Mae manylion am ein prosesau arolygu, cynlluniau ar gyfer ailgydio mewn arolygiadau ac adroddiadau arolygu, a'n cymorth i sicrhau bod Cymru'n dal ati i ddysgu, i'w gweld ar y dudalen Arolygu ar ein gwefan. Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn rhoi esboniad pellach o'r gwaith rydym yn ei wneud.

Mae statud a rheoliadau'n tanategu ein gweithgareddau craidd, ond rydym hefyd yn gweithredu mewn amgylchedd deddfwriaethol ehangach. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu diben a rennir i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf) rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ceisio cynnwys yr elfennau lles angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, ein llywodraethu a'n ffordd o gyflwyno.

Mae ein datganiad llesiant, sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun hwn, yn amlinellu sut rydym yn alinio ein blaenoriaethau corfforaethol â'r nodau llesiant i Gymru. Rydym yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ein cynnydd o ran cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae trosolwg strategol sy'n amlinellu ein **gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, ynghyd â'n hamcanion strategol**, i'w weld yn y cynllun hwn ar ddechrau'r adran 'Sut rydym yn cyflawni ein gwaith'.

## Atodiad 2: Ein datganiad llesiant

Mae ein datganiad llesiant yn ffurfio rhan o'n prosesau cynllunio corfforaethol. Mae'n dangos sut mae ein blaenoriaethau corfforaethol yn cyfrannu at y nodau llesiant i Gymru ac yn esbonio sut rydym yn gweithio'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi uchelgais i fod yn garbon niwtral erbyn 2050. Mae gan Gymru nid yn unig darged uchelgeisiol, mae ganddi fframwaith deddfwriaethol unigryw ar gyfer polisi hinsawdd hefyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] ('y Ddeddf') yn amlinellu diben a rennir i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Caiff y diben a rennir ei gynrychioli gan set integredig o saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf ddatblygu amcanion llesiant a datganiad llesiant ategol.

Ers blynyddoedd lawer, buom yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ceisio cynnwys yr elfennau lles angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, ein llywodraethu a'n ffordd o gyflwyno, a sut rydym yn arwain, yn cyfathrebu ac yn cynnwys ein staff a'n rhanddeiliaid.


Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf. Mae'r adroddiad yn dadansoddi cynnydd cyrff cyhoeddus rhestredig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, o ran rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar waith ers iddi ddod i rym yn 2015.

Ein hamcanion strategol, sy'n ysgogi popeth a wnawn, fydd ein hamcanion llesiant. Mae ein hamcanion strategol yn cynnig cyfeiriad i'r sefydliad ar bob lefel, ac mae blaenoriaethau corfforaethol wedi'u cysylltu ag amcanion timau ac amcanion personol ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn ein helpu i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws ein sefydliad.

### Nodau llesiant

Mae'r nodau llesiant i Gymru, fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hamlinellu isod.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion




**Cymru lewyrchus**

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth**

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.

**Cymru iachach**

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Alinio'r nodau llesiant i Gymru â'n hamcanion strategol

Mae **Tabl 1** isod yn amlinellu sut rydym wedi alinio'r nodau llesiant i Gymru â'n hamcanion llesiant a'n gweithgareddau allweddol. Bydd y mapio hwn yn ein galluogi i fonitro, adolygu ac adrodd ar ein hamcanion strategol yn erbyn y nodau llesiant.

Mae'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2021-2022 i gyflawni ein hamcanion strategol wedi'u hamlinellu ym mhrif adrannau'r cynllun hwn. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi blas ar rai o'n gweithgareddau penodol sy'n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran sicrhau y caiff adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, eu dyrannu'n briodol i'n gweithgareddau gwaith a chadw'r rhain dan arolwg, bydd ein fframwaith llywodraethu yn hwyluso hyn.

Mae cynnydd tuag at gyflawni ein gweithgareddau gwaith yn cael ei fonitro gan bwyllgor gweithredol (y Pwyllgor Polisi a Chyngor Arolygu, y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg). Rydym yn adolygu cynnydd o ran cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol ac yn adrodd arno'n ffurfiol yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae ein Bwrdd Strategaeth yn sefydlu ac yn monitro ein hagenda strategol, yn hybu llywodraethu corfforaethol effeithiol ac yn cynghori ar ein datblygiad er mwyn sicrhau ein lles a'n gwelliant parhaus fel cyflogwr ac fel gwasanaeth cyhoeddus â phroffil uchel.

### Cymru lewyrchus

Mae **Cymru lewyrchus** yn dibynnu ar boblogaeth fedrus ac addysgedig. Ein gwaith craidd yw adrodd ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant, sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, medrus sy'n barod i ddysgu ar hyd eu hoes. Yn benodol, mae ein harweiniad arolygu yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys yr ysgol neu'r darparwr yn llawn yn yr arolygiad, cael safbwyntiau dysgwyr a rhanddeiliaid, a chymhwyso'r egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu. Pan fydd yn ailddechrau arolygu, byddwn yn cyhoeddi manylion ar ein gwefan am ba ddarparwyr a fydd yn cael eu harolygu a pha bryd y caiff eu hadroddiadau arolygu eu cyhoeddi.

Ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys disgyblion, rydym yn creu adnodd newydd i gynnal lefelau cyson o waith gwella ysgolion o ansawdd uchel. Mae'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol hwn yn adlewyrchu ein gweledigaeth i ddatblygu adnodd cenedlaethol a fydd yn ddefnyddiol i bob ysgol ledled Cymru. Mae hunanwerthuso wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd rydym yn eu datblygu i ategu ac alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Mae Adroddiad Blynyddol y Prif Weithredwr yn cyfrannu'n sylweddol at **Gymru lewyrchus,** ynghyd â llawer o'r nodau llesiant eraill, fel **Cymru iachach**, **Cymru sy'n fwy cyfartal** a **Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

I gefnogi **Cymru lewyrchus**, ein nod yw datblygu dysgwyr uchelgeisiol, medrus sy'n barod i ddysgu ar hyd eu hoes. I'r perwyl hwn, ac i gefnogi nifer o'r nodau llesiant eraill, rydym yn meithrin gallu o ran cyflwyno addysg a hyfforddiant drwy gyhoeddi astudiaethau achos arfer effeithiol. Yn 2020, cyhoeddom Datblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion. Mae'n cyfeirio at ysgol lle mae staff yn cynllunio'n weithredol i ddatblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion. Rydym hefyd yn cynnal cynadleddau 'arweinyddiaeth a gwella' i ddarparwyr. Eleni, efallai na fydd yn bosibl i ni wneud hynny mewn digwyddiad wyneb-yn-wyneb, felly byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau rhithiol. Eleni, byddwn yn rhoi cyngor penodol i Lywodraeth Cymru mewn nifer o adroddiadau thematig arfaethedig, gan gynnwys 'Cyngor ac arweiniad diduedd i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar Gyrfa Cymru' a 'newid dulliau asesu (yn yr ystafell ddosbarth)'.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mwyhau llesiant lleol i'r eithaf. Mae ein polisi caffael ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn ystyried cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol, yn hytrach na'r gost yn unig. Rydym yn defnyddio cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau lleol ac yn talu cyflenwyr yn brydlon, ac mae gennym dargedau i fonitro hyn. Ein nod hefyd yw defnyddio lleoliadau lleol yng Nghymru ar gyfer digwyddiadau.

Ein nod yw cefnogi arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau. Rydym yn cefnogi'r cyflog byw, ac mae pawb sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym ni yn cael eu talu ar gyfraddau sy'n uwch na'r cyflog byw. Rydym yn cefnogi aelodaeth undebau llafur ac yn cynnwys undebau yn y ffyrdd rydym yn ymgynghori â staff. Rydym yn sicrhau nad yw unigolion sy'n chwilio am waith dan anfantais oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, rhywioldeb neu nodweddion gwarchodedig eraill.

Rydym yn cydweithio ag eraill i gynorthwyo i ddatblygu medrau ar gyfer y dyfodol. Rydym yn secondio staff i mewn ac allan o'n sefydliad, ac yn defnyddio staff asiantaethau lleol i rannu gwybodaeth a datblygu medrau trosglwyddadwy. Byddwn hefyd yn cynnal arolwg medrau staff yn 2021.

Hoffem gyfrannu at gymdeithas carbon isel. Rydym yn cyfrifo ac yn cyhoeddi ein hôl troed carbon yn flynyddol yn ein hadroddiad amgylcheddol, ac mae gennym darged i'w leihau i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru am sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Pan fyddwn yn teithio unwaith eto, byddwn yn parhau i annog cydweithwyr i rannu ceir wrth deithio ar fusnes swyddogion, ac yn defnyddio cyfleusterau cynadledda rhyngweithiol i gefnogi'r sefydliad yn ei nod o leihau teithio i gyfarfodydd. Eleni, byddwn yn cyflwyno Cynllun Ceir Gwyrdd (prydlesi cerbydau ag allyriadau isel iawn).

## Tabl 1: Alinio'r nodau llesiant i Gymru â'n hamcanion strategol

**Y saith nod llesiant i Gymru**

| Cymru lewyrchus (1) | Cymru gydnerth (2) | Cymru iachach (3) | Cymru sy'n fwy cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan strategol un: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru** | | | | | | | |
| Gweithgarwch ymgysylltu ac arolygu | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Gweithgarwch arolygu dilynol | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Cefnogi parhad dysgu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| **Amcan strategol dau: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| Adroddiad Blynyddol PAEM | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Y llythyr cylch gwaith blynyddol | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Gwaith cynghori arall | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| **Amcan strategol tri: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru** | | | | | | | |
| Hyfforddi, cysylltu ac ymgysylltu | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Lledaenu astudiaethau achos | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| **Sut rydym yn cyflawni ein gwaith** | | | | | | | |
| Cryfhau ymgysylltu â'n rhanddeiliaid | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Llywodraethu a datblygu pobl | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Cyflawni ein dyletswyddau ategol (gan gynnwys cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, a chynaliadwyedd a bioamrywiaeth) | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| Gweithio ar y cyd â chyrff arolygu | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

**Cymru gydnerth**

Bioamrywiaeth yr amrywiaeth y bywyd sydd i'w weld ar y ddaear. Mae prif-ffrydio gweithgarwch bioamrywiaeth mewn sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli tir yn dueddol o ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd, er enghraifft drwy liniaru'r newid yn yr hinsawdd / datgarboneiddio, gan gynnwys caffael yn lleol ac o ffynonellau cynaliadwy, ac arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau.

Ein nod fydd sicrhau y caiff ein swyddfa ei defnyddio'n effeithlon, gan gynnwys ein gofynion o ran lle, a chwilio am gyfleoedd i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol wrth ddarparu ein gwasanaethau. Byddwn hefyd yn ceisio lleihau'r defnydd o blastig, yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru am Gymru sy'n rhydd rhag plastigion untro diangen. Mae ein cyflawniadau hyd yn hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i brynu cwpanau plastig untro, a phan rydym wedi prynu cwpanau i ymwelwyr eu defnyddio, bu'r rhain yn fioddiraddadwy. Rydym yn ardywallt hylif golchi llestri o gynwysyddion mawr i boteli y gellir eu hail-lenwi. O ran deunyddiau swyddfa, rydym yn ailgylchu ac yn ailddefnyddio eitemau, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau gwastraff, a byddwn yn ymchwilio i ddewisiadau cynaliadwy pellach, yn enwedig yn sgil gweithio gartref.

Yn ystod cyfnodau arferol, caiff staff ac ymwelwyr â'n swyddfa eu hannog i ailgylchu cymaint ag y bo modd. Cynyddom ein hymdrechion i ailgylchu / adfer ynni yn ein swyddfa fel nad oedd unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae hyn diolch i'n staff a gwelliannau i brosesau ailgylchu gwastraff / adfer ynni. Byddwn yn parhau i annog staff sy'n gweithio gartref i ailgylchu ystod o eitemau, o getris peiriannau argraffu i fatris a phapur diangen. Fel arfer, byddai'r rhai sy'n gweithio gartref yn dod â'r eitemau hyn i'r swyddfa i'w hailgylchu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r pandemig COVID-19 wedi atal yr arfer hon am y tro, ond bydd hyn yn ailddechrau wedi i ni ddychwelyd i'r normal newydd.

2021-2022 fydd ein pedwaredd flwyddyn yn defnyddio ynni glân, a bydd ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan yn cael eu cofnodi fel sero. Mae ein tariff ynni 100% adnewyddadwy wedi'i gymeradwyo gan Warantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO).

Byddwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau caffael i brynu nwyddau a gwasanaethau lle mae'n ofynnol i gyflenwyr fodloni'r meini prawf amgylcheddol lleiaf i gael eu cynnwys mewn tendrau. Wrth ddefnyddio llwybrau caffael amgen, byddwn yn parhau i roi pwys ar nodweddion amgylcheddol yn y broses werthuso, lle y tybir ei fod yn hanfodol i gyflawni'r contract, ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gost gydol oes y cynhyrchion sy'n cael eu prynu, lle bo hynny'n berthnasol (e.e. costau cynnal a chadw / rhedeg a gwaredu). Byddwn hefyd yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gymwysterau a galluoedd amgylcheddol darpar gyflenwyr fel rhan o'r broses ddethol, lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn parhau i gaffael nwyddau a gwasanaethau'n lleol, lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft cyflenwadau deunyddiau swyddfa (drwy fframwaith), contractwyr cynnal a chadw adeiladau, a phan fydd angen gwasanaeth arlwyo ar gyfer digwyddiadau hyfforddiant mewnol.

Byddwn yn ceisio datblygu diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol ymhlith ein staff a thrwy ein prosesau arolygu. Byddwn yn asesu cynnydd o ran dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang pan fydd arolygiadau'n

ailddechrau, ac yn nodi enghreifftiau o arfer gref. Ein nod fydd ysbrydoli a chynnwys ein staff drwy erthyglau amgylcheddol.

Mae ein polisi amgylcheddol 2021-2022 a'n Hadroddiad Amgylcheddol 2020 yn cynnwys sut mae ystyried bioamrywiaeth yn cael ei ymgorffori yn Estyn.

**Cymru iachach**

Mae sicrhau bod llesiant pobl cystal ag y gallai fod dan **Gymru iachach** yn ffocws ar gyfer ein fframwaith arolygu. Mae'n ofynnol i arolygwyr edrych ar safonau lles dysgwyr, gan gynnwys eu hagweddau at gadw'n iach ac yn ddiogel, a'r ddarpariaeth a wneir gan y darparwr. Mae enghraifft o arfer effeithiol i'w gweld yn ein hastudiaeth achos Datblygu rhaglen addysg awyr agored, sy'n cyfeirio at goleg sy'n defnyddio ei raglen addysg a gweithgareddau awyr agored i ddatblygu lles ysbrydol, deallusol a chorfforol disgyblion. Mae Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn adroddiad thematig diweddar sy'n rhoi cipolwg ar sut mae colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn ystod y pandemig COVID-19.

Yn 2021-2022, bydd parhau i atal arolygiadau yn galluogi arolygwyr i gynorthwyo darparwyr i adfer o'r sefyllfa gyfredol drwy alwadau ac ymweliadau ymgysylltu. Mae un agwedd y byddwn yn rhoi cyngor arno i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â chymorth i ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig yn ymwneud â lles.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo ein staff i ymddwyn yn drugarog a hwyluso dealltwriaeth o les meddyliol. Mae gennym Bolisi Iechyd a Lles ac rydym yn cynnig Rhaglen Cymorth i Gyflogeion. Trwy gynllun gweithredu ein Haddewid Amser i Newid, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl. Trwy ein cylchlythyr, ymgyrchoedd iechyd a hysbysfyrddau, byddwn yn rhannu profiadau iechyd meddwl ac yn ceisio lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Mae ein polisïau presenoldeb wedi'u llywio gan les, a darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i grŵp o reolwyr. Yn 2021-2022, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar iechyd meddwl a lles, yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i bob rheolwr, ac yn hyrwyddo offer i helpu ein pobl i feithrin cydnerthedd. Ffocws allweddol ein strategaeth dysgu a datblygiad fydd cefnogi ein pobl â'r trawsnewidiad i ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft gweithio cymysg i barhau i annog cydweithio ac ymgysylltu.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi iechyd a lles ein staff ac mae gennym Grŵp Lles ac Ymgysylltiad Cyflogeion. Rydym yn cynnig amser i staff fynychu apwyntiadau yn ymwneud â'u hiechyd a lles, ac rydym yn ad-dalu costau brechiad y ffliw i staff. Bydd hyn yn helpu pobl i gadw'n iach ac yn ac arbed arian a chostau dyddiau salwch.

Hoffem fod yn rhan o ymgyrch am wlad egnïol. Er mwyn ei gwneud mor hawdd â phosibl i staff gymudo ar feic, gosodom gawodydd a storfa feiciau diogel yn ein swyddfeydd. Byddwn yn parhau i gynnig Cynllun Beicio i'r Gwaith. Rydym hefyd yn cynnig rhywfaint o amser yn ystod yr wythnos waith i staff ganolbwyntio ar

weithgareddau sy'n cyfoethogi eu hiechyd meddwl a/neu gorfforol drwy 'awr les'.

Fel rhan o'n hymrwymiad i iechyd a lles pobl, rydym yn canolbwyntio ar feysydd gweithgarwch allweddol dan arweiniad egwyddorion y Safon Iechyd Corfforaethol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Nod ein holl weithgareddau yw cyfrannu at **Gymru sy'n fwy cyfartal** lle gall pobl gyflawni eu potensial. Byddwn yn parhau i gefnogi amgylchedd gwaith teg a chynhwysol drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw cyflawni deilliannau gwell i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a byddwn yn sicrhau bod ein penderfyniadau strategol yn ystyried ysbryd y ddyletswydd.

Mae ein polisi sy'n ystyriol o deuluoedd yn amlinellu'r buddion statudol ac estynedig y byddwn yn eu cynnig i gyflogeion sy'n rhieni ac sy'n cael baban. Mae ein polisi gweithio hyblyg yn cynnig ystod o ddewisiadau gweithio hyblyg, gan gynnwys gweithio gartref, oriau rhan-amser, oriau cywasgedig, rhannu swydd, gweithio rhan o'r flwyddyn, oriau blynyddol ac oriau hyblyg. Caiff y rhain eu cyfleu i staff yn rheolaidd, ac rydym yn monitro ceisiadau i weithio'n hyblyg a'r deilliannau.

Mae hyfforddiant ar gynhwysiant a Dod yn Hyderus o ran Anabledd yn orfodol i bawb er mwyn sbarduno newid o ran diwylliant a herio ystrydebau yn y gweithle. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd arweinyddiaeth i bob aelod staff.

Rydym yn sicrhau y caiff addasiadau rhesymol eu cynnig ar hyd y broses recriwtio a chylch oes y cyflogai. Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau i roi addasiadau rhesymol ar waith er mwyn sicrhau y gall ein pobl fanteisio ar yr addasiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyflym ac yn rhwydd.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfle cyfartal i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau, a galluogi deilliannau cyfartal. Mae ein swyddfa'n cydymffurfio ag anghenion hygyrchedd, o ran mynediad a chyfleusterau, a phan rydym yn cynnal digwyddiadau, rydym yn gofyn i bobl a oes ganddynt ofynion mynediad pan fyddant yn cofrestru.

Rydym hefyd yn defnyddio 'Diwrnodau Rhyngwladol' y Cenhedloedd Unedig i addysgu, ysbrydoli a chynnwys pobl. Caiff yr holl ddogfennau ar ein gwefan eu sgrinio o ran hygyrchedd, ac mae ein holiaduron i rieni ar gael mewn nifer o ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg – gweler holiaduron mewn ieithoedd ychwanegol.

Rydym hefyd yn llunio arweiniad arfer orau ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, y mae enghreifftiau ohonynt i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio'r tag 'cydraddoldeb ac amrywiaeth'.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ar Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd yn cynnig ffordd ymlaen o ran sut y gellir sicrhau – ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad – fod

profiadau a chyfraniadau amrywiol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn rhan annatod o'r broses. Byddwn ni'n gyfrifol am roi dau o'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith (42 a 43).

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Rydym wedi ymrwymo i **Gymru o gymunedau cydlynus**. Mae ein fframwaith arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr ystyried pa mor dda mae darparwyr yn cydweithio â phartneriaid strategol, gan gynnwys grwpiau cymunedol. Enghraifft o **Gymru o gymunedau cydlynus** yw'r astudiaeth achos Medrau bywyd disgyblion yn datblygu o'u gwaith cymunedol. Mae Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol yn adroddiad thematig diweddar sy'n edrych ar waith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae ein staff yn gefnogwyr brwd o ddigwyddiadau elusennol ac yn codi miloedd o bunnoedd ar gyfer nifer o achosion da bob blwyddyn. Hoffem gefnogi cyflogeion sydd eisiau cyfrannu at y gymuned ehangach. Felly, mae absenoldeb arbennig â thâl fel arfer yn cael ei ganiatáu i alluogi cyflogeion i wasanaethu'r gymuned drwy wirfoddoli, cyflawni dyletswyddau cyhoeddus, mynychu gwasanaeth rheithgor neu wasanaethu yn y lluoedd wrth gefn.

O ran cysylltu cymunedau, fel y crybwyllwyd dan **Cymru iachach** a'r 'ymgyrch am wlad egnïol', rydym yn hyrwyddo teithio llesol ymhlith ein staff drwy ddarparu cyfleusterau fel cawodydd a chynllun aberthu cyflog ar gyfer beicio i'r gwaith.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae ein hymrwymiad i **Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** wedi'i ymgorffori yn ein harfer gwaith, ac mae ein Polisi Iaith Gymraeg yn dangos sut rydym yn bodloni gofynion safonau'r Gymraeg. Rydym yn parhau i ddatblygu ac adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau, ac yn cefnogi hyfforddiant Cymraeg i staff er mwyn gwella ein gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn galluogi staff i fanteisio ar ddysgu yn ystod yr wythnos waith. Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r coma Cymraeg yn eu llofnodion e-bost ac yn gwisgo laniardiaid â'r coma Cymraeg arnynt i hybu ein diwylliant a'r Gymraeg. Mae gan bob un o'n mannau mynediad gyfarchiadau dwyieithog. Rydym hefyd yn asesu'r angen am y Gymraeg wrth ddatblygu swydd ddisgrifiadau.

Rydym yn ceisio datblygu cyfleoedd i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru i ehangu a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol yn lleol, ac fel rhan o'r darlun cenedlaethol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau arferol, rydym yn arddangos yn Eisteddfod yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru. Byddwn yn rhoi cyngor penodol i Lywodraeth Cymru eleni mewn adroddiad thematig arfaethedig – 'Dulliau o drochi yn y Gymraeg'.

Rydym yn defnyddio cyfieithwyr cymwysedig sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gyfieithu i'r Gymraeg a datblygu gwybodaeth ddwyieithog.

### Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rydym yn ymdrechu i gyfrannu at **gyfrifoldeb byd-eang**, ac mae arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda mae ysgolion yn helpu disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae arolygwyr yn ystyried pa mor dda mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol a gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ystyried cyfranogiad disgyblion mewn penderfyniadau ar lefel yr ysgol, gan gynnwys y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth a sut maent yn dysgu, ac effeithiolrwydd y cyngor ysgol a grwpiau eraill i ddisgyblion, er enghraifft yr eco-bwyllgor. Mae un astudiaeth achos, sef Cefnogi lles disgyblion, yn ymwneud ag ysgol sydd wedi meithrin partneriaethau rhyngwladol cryf yn dilyn ei rôl mewn prosiect Erasmus (rhaglen yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon yn Ewrop).

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwelliant drwy weithio ar y cyd â'n cymheiriaid rhyngwladol. Trwy'r grŵp Alltraeth, rydym yn rhannu gwybodaeth ac arfer yn rheolaidd â gwledydd cyfagos ar lefel strategol a gweithredol i lywio datblygiad parhaus yr aelod-arolygiaethau mewn cyd-destunau addysgol a gwleidyddol tebyg. Bydd llawer o'n gwaith ar y cyd yn ystod 2021-2022 yn canolbwyntio ar rannu dulliau arolygu ac adfer y cwricwlwm yn sgil yr effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y system addysg ac ar ddeilliannau i ddysgwyr.

Mae ein hymgysylltiad parhaus â gweithgareddau Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau, sydd â 34 o aelodau ledled Ewrop a'r tu hwnt, yn sicrhau ein bod yn elwa ar y gallu i ddysgu oddi wrth arolygiaethau eraill a'u prosesau. Mae hefyd yn cynnig cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth ryngwladol am arolygu a gwerthuso, a chyfrannu ati, mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag pwysau domestig neu wleidyddol.

Yn gysylltiedig â **Chymru gydnerth**, rydym yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a threuliant cynaliadwy drwy gaffael cynhyrchion a gwasanaethau ac ymrwymiad i arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau. Dyma'r meysydd lle gall Estyn wneud y cyfraniad mwyaf i gynnal a gwella bioamrywiaeth a dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rydym yn parhau i ymgorffori elfennau prynu Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru yn ein prosesau caffael.

Mae ein huwch dîm rheoli wedi ymrwymo i ddylanwadu ar gyfrifoldeb amgylcheddol, a'i hybu, yn ein gweithrediadau. Caiff Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ei dyfarnu i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Diolch i gefnogaeth ein staff, rydym wedi ein hailachredu i lefel 3 y safon hon er 2007.

### Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio gwerth atal problemau rhag digwydd, yn hytrach na mynd i'r afael â nhw ar ôl iddynt ddod i'r amlwg. Ei nod yw cyfuno materion polisi, fel iechyd cyhoeddus, addysg, newid yn yr hinsawdd a ffyniant economaidd, ac mae'n ei gwneud yn orfodol i bob polisi gyfrannu at gynaliadwyedd a pheidio â thanseilio nodau hirdymor.

Mae'r Ddeddf wedi pennu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' er mwyn dweud wrth sefydliadau sut i gyflawni eu dyletswydd dan y Ddeddf.

Mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl am bum peth wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| • Hirdymor – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hir hefyd<br><br>• Atal – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion<br><br>• Integreiddio – ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | • Cydweithio – gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant<br><br>• Cynnwys – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu |

Mae ein hamcanion llesiant a'r gweithgareddau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun blynyddol hwn yn gyson â gofynion yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Dyma rai agweddau ar ein gwaith sy'n enghreifftio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae addysg yng Nghymru ar daith ddiwygio uchelgeisiol, ac mae ein gwaith yn hanfodol o ran cefnogi'r nod hirdymor hwn. Mae'r adroddiad annibynnol, 'Arolygiaeth Dysgu', yn amlinellu goblygiadau diwygio addysg i ni. Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r 'prif gamau gweithredu' byrdymor ar gyfer 2020-2021. Byddwn yn cydweithio â'n staff a'n rhanddeiliaid i ymgynghori ar bob cam o'r ffordd.

Rydym yn cydnabod gwerth atal problemau rhag digwydd yn hytrach na mynd i'r afael â nhw wedi iddynt ddod i'r amlwg. Mae llawer o'n gwaith yn ymwneud â diwygio addysg yn canolbwyntio ar atal. Yn benodol, gall arolygiadau thematig helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda, rhwystrau rhag cynnydd a chynnig astudiaethau achos o arfer sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, yn 2020, cyhoeddom adolygiad thematig Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Eleni, byddwn yn rhoi cyngor penodol i Lywodraeth Cymru ar yr adroddiad thematig arfaethedig – 'Cefnogaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol'.

Mae hunanwerthuso wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd rydym yn eu datblygu i gefnogi ac alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac ysgolion i ddatblygu'r 'Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol' (NEIR). Mae cydweithio ac ymglymiad yn allweddol o hyd o ran datblygu a chyflwyno'r adnodd hwn i ysgolion yng Nghymru.

Pan fydd arolygiadau peilot o ysgolion yn ailddechrau yn nhymor y gwanwyn 2022 a phan gaiff ein trefniadau arolygu newydd eu cyflwyno, bydd y fframwaith newydd yn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a threfniadau hunanwerthuso. Byddwn yn ystyried sut bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i arolygu yn cael effaith ar draws yr holl sectorau rydym yn eu harolygu. Os oes gwelliannau synhwyrol, byddwn yn ystyried, gyda chefnogaeth gan randdeiliaid, sut gallwn roi'r rhain ar waith ar draws sectorau gwahanol.

Yn ystod 2021-2022, byddwn yn parhau â gweithgareddau ymgysylltu. Nod yr alwad neu'r ymweliad yw gweld sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â heriau penodol ymgysylltu â'u dysgwyr a'u cymunedau, a'u cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn. Byddwn hefyd yn ailddechrau ein sgyrsiau am y Cwricwlwm i Gymru.

Hyd yn hyn, bu'r adborth gan lawer o ddarparwyr yn gadarnhaol iawn. Mae llawer o benaethiaid wedi croesawu'r cyfle i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau ynghylch sut maent yn ymdopi yn ystod cyfnod heriol drwy drafodaeth anffurfiol. Yn 2021-2022, byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi cynllun adfer dysgu Llywodraeth Cymru ar ôl y pandemig COVID-19 ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant. Mae ein hadnoddau gwella ar gyfer 'cymorth i ddal ati i ddysgu' yn rhannu'r adroddiadau hyn ar sut mae darparwyr yn cynorthwyo eu dysgwyr a'u cymuned wrth ymateb i'r amgylchiadau anodd o ganlyniad i COVID-19. Efallai y gall darparwyr addasu'r rhain i'w cyd-destun eu hunain.

Er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ein gwaith, rydym wedi parhau i wrando ar ein rhanddeiliaid a dysgu oddi wrthynt, gan wneud yn siŵr fod ein cyfathrebiadau'n canolbwyntio ar y negeseuon pwysicaf ar y pryd yn unig. Byddwn yn parhau i sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd arolygu a bod ein gwaith yn adlewyrchu disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Eleni, bydd y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn esblygu wrth i ni ystyried ffyrdd newydd o weithio â'n rhanddeiliaid i ffurfio ein cynlluniau wrth i ni ymateb i'r pandemig. Byddwn yn ymgysylltu'n eang, ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol i gyrraedd grwpiau newydd a gwahanol o randdeiliaid, ac yn defnyddio eu safbwyntiau i helpu i gyfarwyddo ein gweithgareddau a gwella ein gwaith.

Mae meddwl integredig yn ein helpu i gydweithio o fewn ein sefydliad ac ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant.

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn pontio'n ôl i weithgarwch arolygu. Rydym yn ymgymryd â rhywfaint o waith arolygu ar y cyd ag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill, ac yn cydlynu gweithgareddau cynllunio fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur sy'n osgoi dyblygu ac yn sicrhau y caiff risgiau a phryderon allweddol eu harchwilio.

Trwy'r grŵp Alltraeth, rydym yn rhannu gwybodaeth ac arfer yn rheolaidd â gwledydd cyfagos ar lefel strategol a gweithredol i lywio datblygiad parhaus yr aelod-arolygiaethau mewn cyd-destunau addysgol a gwleidyddol tebyg. Bydd llawer o'n gwaith ar y cyd yn ystod 2021-2022 yn canolbwyntio ar rannu dulliau arolygu ac adfer y cwricwlwm yn sgil yr effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y system addysg ac ar ddeilliannau i ddysgwyr. Mae ein hymgysylltiad parhaus â gweithgareddau Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau, sydd â 34 o aelodau ledled Ewrop a'r tu hwnt, yn sicrhau ein bod yn elwa ar y gallu i ddysgu oddi wrth arolygiaethau eraill a'u prosesau.

**Mae'r Cynllun Blynyddol hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau am y Cynllun Blynyddol hwn, y gellir eu hanfon atom drwy'r e-bost i [adborth@estyn.llyw.cymru](mailto:adborth@estyn.llyw.cymru)**

**Mae'r Cynllun Blynyddol hwn wedi cael ei gyflwyno at sylw Prif Weinidog Senedd Cymru, ac wedi cael ei gymeradwyo ganddo.**